# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 5ED HYDREF, 2023**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

**NODER: Cynhelir sesiwn briffio i'r Aelodau am 10:15yb**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

**Ac yn rhithiol drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679256**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 27 Medi 2023)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (11)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Elin Hywel
Edgar Wyn Owen
Beca Roberts
Delyth Lloyd Griffiths
Kim Jones
Llio Elenid Owen
Rhys Tudur
Annwen Hughes
Linda Morgan
Arwyn Herald Roberts

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Robert Glyn Daniels
Elfed Powell Roberts
Rob Triggs
Gwilym Jones
Peter Thomas
Gruffydd Williams

## Llafur/ Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13.07.2023 fel rhai cywir.

**5. CYTUNDEB CYFLAWNI DRAFFT CYNLLUN DATBLYGU LLEOL GWYNEDD** 10 - 73

I gyflwyno’r Cytundeb Cyflawni Drafft.

**6. CYFLWYNO PWYNTIAU GWEFRU CYHOEDDUS AR GYFER CERBYDAU TRYDAN** 74 - 81

I ddiweddaru Aaelodau’r Pwyllgor Craffu ar y cynnydd a’r cynlluniau ar gyfer cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus.

**7. TOILEDAU CYHOEDDUS** 82 - 106

Cyflwyno diweddariad ar y Gwasanaeth Toiledau Cyhoeddus ac i dderbyn sylwadau ac adborth ar y cynnwys.

**8. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2023/24** 107 - 108

Mabwysiadu rhaglen waith ddiwygiedig.

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 13 GORFFENNAF 2023**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:**

Stephen Churchman, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Elin Hywel, Gwilym Jones, Edgar Owen, Llio Elenid Owen, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Peter Thomas, Rhys Tudur a Gruffydd Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) ac Ellie Evans (Cynorthwywr Gweinyddol Gwasanaeth Democratiaeth)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Dirprwy Arweinydd Y Cyngor) a Sandra Lynne Thomas (Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd) a Rhian Wyn Williams (Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

   **Ethol y Cynghorydd Elin Hywel yn Gadeirydd Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gyfer 2023/2024.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

   **Ethol y Cynghorydd Annwen Hughes yn Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gyfer 2023/2024.**

3. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Kim Jones, Linda Morgan a Rob Triggs.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi.

6. **COFNODION**

   Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 09 Mawrth 2023, fel rhai cywir.

7. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN 2022-23**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Ddirprwy Arweinydd Y Cyngor a Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

Eglurwyd bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor oherwydd bod gan Bwyllgorau Craffu Gwynedd ac Ynys Môn ddyletswydd i fonitro cynnydd ymdrechion y Bwrdd wrth weithredu'r cynllun llesiant, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Esboniwyd mai 2022-2023 oedd flwyddyn olaf y cynllun llesiant a fabwysiadwyd yn 2018. Nodwyd bod y Bwrdd wedi cynnal ymgynghoriadau trylwyr gan ymgysylltu gyda grwpiau o rhanddeiliaid er mwyn datblygu Cynllun Llesiant ar gyfer 2023-2028. Nodwyd byddai'r cynllun hwn yn cael ei lansio yn yr Eisteddfod a gynhelir ym Moduan yn Awst 2023.

Nodwyd bod y cynllun llesiant newydd yn adlewyrchu gwersi a ddysgwyd gan y Bwrdd wrth weithredu'r Cynllun Llesiant diweddaraf er mwyn ymgorffori gweithdrefnau newydd i fod yn fwy llwyddiannus.

Atgoffwyd bod aelodau'r Bwrdd yn arbenigwyr yn eu meysydd unigol ac yn cydweithio gyda'r rhanddeiliaid er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ychwanegu gwerthi amcanion y Bwrdd oddi fewn y Cynllun Llesiant. Rhannwyd rhai enghreifftiau ble roedd y trefniant hwn wedi bod yn llwyddiannus megis Siarter Teithio Llesol, tywys Aelodau Llywodraeth Cymru o amgylch ardaloedd Gwynedd a Môn er mwyn pwysleisio pwysigrwydd mentrau cymdeithasol o fewn cymunedau a chydlynu newidiadau i faes iechyd a gofal

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

Mewn ymateb i sylwad ar sicrhau fod trigolion yn ymwybodol o beth yw ystyr sero net carbon a sut i'w gyrraedd, cadarnhaodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, bod gweithdai yn cael eu cynnal ar hyn o bryd er mwyn canfod y ffordd orau o gyflwyno'r Amcan hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod am yr Iaith Gymraeg, sicrhaodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn bod yr Iaith Gymraeg yn flaenoriaeth barhaol i'r Bwrdd ac ni fyddai'n cael ei newid pob 5 mlynedd fel Amcanion Llesiant y Bwrdd a nodwyd bod Is-grŵp wedi ei ffurfio'n barhaol er mwyn trafod materion ieithyddol. Ymhelaethwyd bod Comisiynydd y Gymraeg yn cyfarfod gyda Chadeirydd y Bwrdd yn chwarterol ac yn hapus gyda'u gwaith. Pwysleisiwyd bod geiriad y cynllun gorffenedig wedi cael ei ddiwygio er mwyn amlygu pwysigrwydd yr iaith i'r Bwrdd.

Nododd yr aelod ei fod yn cydnabod y gwaith a gyflawnwyd gan y Bwrdd o ran yr Iaith Gymraeg ond ei fod o'r farn bod peidio cynnwys Amcan Llesiant penodol yn y Cynllun Llesiant newydd yn gam gwag. Ymhelaethodd pe byddid wedi cynnwys Amcan Llesiant penodol mi fyddai wedi gwneud datganiad cryf bod yr Iaith yn ganolog i waith y Bwrdd ac yn uwch na phopeth.

Nodwyd nad oedd cofnodion cyfarfodydd diweddaraf y Bwrdd wedi cael eu uwchlwytho ar eu gwefan ac felly cynigiwyd i ohirio'r drafodaeth nes i'r wybodaeth gael eu rhannu'n gyhoeddus er mwyn sicrhau bod y mater yn cael ei graffu'n llawn gyda holl wybodaeth berthnasol wrth law. Eiliwyd y cynnig.

- Mewn ymateb i'r cynnig hwn, eglurodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn mai problem weinyddol oedd y rheswm am hyn a bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod problemau'r wefan yn cael eu datrys. Ymhelaethodd bod gwefan rhanbarthol yn cael ei ddatblygu.

- Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol nad oedd cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cynnwys fel rhan o'r adroddiad blynyddol yn arferol. Cydnabuwyd fodd bynnag y dylai'r cofnodion hynny fod ar gael ar y wefan i unrhyw un eu harchwilio pe dymunant wneud hynny

Pleidleisiwyd ar y cynnig i ohirio'r drafodaeth. Disgynnodd y cynnig ac fe barhawyd gyda'r drafodaeth.

Mewn ymateb i ymholiad ar benderfyniad y Bwrdd i symud ffocws o newid hinsawdd i sero net carbon, cadarnhaodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn nad oedd y newid hwn mewn terminoleg wedi effeithio ar waith pwysig y Bwrdd i helpu gydag atal llifogydd. Eglurwyd hefyd bod y newid hwn wedi cael ei wneud er mwyn caniatáu i fwy o bartneriaid cael mewnbwn ar y gwaith. Nodwyd bod y Bwrdd yn cydweithio gyda'r Bwrdd Newid Hinsawdd a Natur ar y materion hyn.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

2. **Bod Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn yn cylchredeg cofnodion cyfarfodydd diweddaraf y Bwrdd i Aelodau'r Pwyllgor mor fuan â phosib.**

**8. DIWEDDARIAD – DATBLYGIADAU YN Y MAES CLUDIANT CYHOEDDUS**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Adran Amgylchedd a Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd. Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

Eglurwyd bod y maes cludiant cyhoeddus yn profi cyfnod heriol yn dilyn Covid-19. Nodwyd bod pobl wedi symud oddi wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus yng nghyfnod y Pandemig ac nad oedd y ffigyrau wedi cynyddu i'r lefel a welwyd cyn Covid-19. Eglurwyd bod pecyn ariannol wedi ei ddarparu gan y Llywodraeth er mwyn cynorthwyo costau cynnal cludiant cyhoeddus dros y cyfnod hwnnw ond bod y cynllun brys wedi dod i ben. Nodwyd y derbyniwyd cadarnhad y byddai'r Llywodraeth trwy'r Gronfa Bontio ar gyfer bysiau yn darparu cymorth ariannol tan Ebrill 2024.

Adroddwyd bod newid yn nhechnoleg yn golygu bod y Cyngor yn ceisio defnyddio bysiau trydan. Nodwyd bod bysiau trydan cyntaf Gwynedd yn mynd i gael eu gwefru ym Mhorthmadog. Esboniwyd bod hyn yn newid mawr i gwmnïau bysiau a bod risgiau sylweddol ynghlwm a'r newidiadau hyn.

Cydnabuwyd bod ceir personol yn mynd i fod yn angenrheidiol mewn rhai ardaloedd gwledig er gobeithiwyd i'r ddibyniaeth hwn ar geir personol gael ei leihau yn y dyfodol. Er hyn, adroddwyd bod cynnydd o dros 30% yn nefnydd y SHERPA o gwmpas ardal Yr Wyddfa dros y flwyddyn ddiwethaf.

Atgoffwyd bod nifer o sefydliadau yn gyfrifol am y maes cludiant cyhoeddus ar y cyd gyda'r Cyngor megis Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru a Chyd-Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

Mewn ymateb i ymholiad ar bwyntiau gwefru bysiau trydan ym Mhorthmadog, cadarnhaodd Pennaeth Adran Amgylchedd y gobeithir i'r pwyntiau gwefru gael eu cysylltu'n drydanol erbyn mis Awst, gyda'r gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd erbyn mis Medi yn ddibynnol ar dendr. Er hyn, nodwyd bod ymddygiad gwrthgymdeithasol ar fysiau yn dilyn 6yh yn peri pryder i gwmnïau a chynhelir trafodaethau gyda'r heddlu i ddatrys y broblem. Eglurwyd y parheir i ddarbwyllo gweithredwyr i barhau gyda gwasanaethau ond ei fod yn her oherwydd prisiau rhedeg gwasanaethau.

Nododd aelod ei fod yn croesawu'r cydweithio gyda Thrafnidiaeth i Gymru gan nodi pwysigrwydd bod y gwasanaethau lleol yn cysylltu gyda'r gwasanaethau strategol. Cyfeiriodd at wasanaeth yn ei ward nad oedd yn mynd trwy Dolan, er y credai y dylai oherwydd y nifer o deithwyr posib a fyddai'n cynyddu niferoedd defnyddwyr y gwasanaeth.

Mewn ymateb i ymholiad ar gyllideb, cadarnhaodd Pennaeth Adran Amgylchedd bod y Cyngor yn ffodus i dderbyn cefnogaeth gan Trafnidiaeth i Gymru yn flynyddol. Er hyn, pwysleisiwyd nad oes corff arall fyddai'n gallu helpu'r Cyngor i ariannu'r gwasanaethau hyn petai'r gefnogaeth yn dod i ben. Eglurwyd byddai angen chwilio am arian refeniw i ariannu'r gost petai'r sefyllfa hyn yn codi.

Eglurwyd bod y bysiau trydan wedi eu prynu gan Lywodraeth Cymru a bod eu perchnogaeth yn symud i Gyngor Gwynedd. Esboniwyd bod y broses o gael trwyddedau a hawliau ar gyfer meddu â thrwydded bysiau yn un anodd, cymhleth a chostus iawn ac ni fyddai hyn o fudd i'r Cyngor weithredu arno ar hyn o bryd. Cadarnhawyd bod y bysiau wedi cael eu gwarantu ac felly ddim yn debygol o fod yn gostau ychwanegol i'r Cyngor a bod gwaith monitro parhaus mewn lle er mwyn sicrhau bod y bysiau yn cael eu cadw i'r safon orau posibl.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Adran Amgylchedd mai prif her yr adran gyda'r maes hwn yw codi hyder trigolion Gwynedd i ddefnyddio'r gwasanaethau. Rhannwyd enghraifft ble roedd un o wasanaethau ardal Blaenau Ffestiniog wedi gorfod stopio gan orfodi trigolion i ddefnyddio ceir personol. Cydnabuwyd na fyddai'r ddibyniaeth ar geir personol yn stopio oni bai bod trigolion Gwynedd yn hyderus bod y gwasanaethau mewn lle yn mynd i barhau ac yn gyfleus iddynt.

Cyfeiriodd aelod at faterion a oedd wedi codi yn ei ward yn ddiweddar gan nodi bod angen sicrhau darpariaeth yn yr ardaloedd gwledig. Mewn ymateb, nododd Pennaeth Adran Amgylchedd bod darparu gwasanaethau yn ardaloedd gwledig yn fwy costus gyda nifer isel o ddefnyddwyr yn golygu cost uwch y pen.

Nododd aelod pwysigrwydd derbyn mewnbwn gan ddefnyddwyr a'r rhai nad oedd yn defnyddio'r gwasanaethau wrth adolygu/ail-strwythuro gwasanaethau.

Mewn ymateb i ymholiad am beidio defnyddio bysiau sy'n defnyddio tanwydd ffosil, eglurodd Pennaeth Adran Amgylchedd bod yr adran yn ymchwilio i fysiau hydrogen yn ogystal â thrydan.
Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd bod gwasanaethau yn ardal Arfon wedi eu tendro ac y bwriedir tendro gwasanaethau yn ardal Meirionnydd yn y ddeufis nesaf.

Holodd aelod sut y gellid ehangu'r defnydd o fysiau trydan i ardaloedd gwledig heb fod y Cyngor yn ei sybsideiddio. Mewn ymateb, nododd Pennaeth Adran Amgylchedd bod disgwyliad y byddai'r dechnoleg yn gwella a'r pris prynu yn dod i lawr.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod yng nghyswllt egluro'r sefyllfa yng nghefn gwlad i Lywodraeth Cymru fel eu bod gyda gwell dealltwriaeth, nododd Aelod Cabinet Amgylchedd ei fod yn cyfleu'r heriau a'r sefyllfa mewn trafodaethau a'i fod wedi cynrychioli'r Cyngor mewn cynhadledd yn trafod trafnidiaeth yn Llundain yn ddiweddar.

Croesawyd y syniad o geisio cynnwys mwy o ardaloedd twristiaeth poblogaidd yng nghylchdeithiau'r gwasanaeth er mwyn rhoi cyfle i bawb ymweld â'r safleoedd.

Holodd aelod pryd fyddai'n amserol i'r Pwyllgor dderbyn diweddariad. Mewn ymateb, nododd Pennaeth Adran Amgylchedd y byddai'n amserol ar ôl mis Mawrth 2024. Ymhelaethodd y cynhelir trafodaethau am wasanaethau gydag aelodau penodol yn y cyfamser. Nododd aelod y byddai'n fuddiol derbyn gwybodaeth am y defnydd o'r bysiau trydan yn dilyn sefydlu'r gwasanaeth newydd fel rhan o'r diweddariad.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

**9. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2023/24**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Craffu gan nodi'r prif bwyntiau canlynol:

Nodwyd bod y blaenraglen ddrafft wedi ei lunio yng ngweithdy blynyddol y pwyllgor ar 10 Mai 2023. Ymhelaethwyd y gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor ymateb i gwestiwn ar-lein o ran eu pum prif flaenoriaeth o'r rhestr o eitemau posib a ddarparwyd ymlaen llaw cyn y gweithdy. Tynnwyd sylw at y pum prif flaenoriaeth a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r cwestiwn, sef:

- Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus
- Torri Gwair a Chynnal Tiroedd
- Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu
- Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd
- Toiledau Cyhoeddus

Nodwyd bod yr Aelodau wedi ymgeisio i sicrhau nad oedd mwy na 3 eitem i'w drafod ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor er mwyn sicrhau bod pob eitem sy'n cael ei graffu yn derbyn sylw teilwng. Er hyn, nodwyd nad oedd hyn yn bosib ar bob achlysur.

Esboniwyd bod blaenraglen y pwyllgor yn ddogfen fyw, sy'n cael ei adolygu'n gyson ar hyd y flwyddyn er mwyn sicrhau fod y materion cywir yn cael sylw amserol.

Eglurwyd bod cais wedi ei dderbyn gan yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd) yn dilyn y gweithdy i symud eitem. Nodwyd bod y Llawlyfr Priffyrdd wedi ei ystyried a'i gymeradwyo gan Y Cabinet ar 11 Gorffennaf 2023 ac felly ni fuasai'n amserol i'w graffu yn y cyfarfod hwn. Roedd y Pennaeth a'r Aelod Cabinet wedi awgrymu byddai'n amserol i'w graffu yng nghyfarfod 22 Chwefror 2024 gan symud yr eitem Toiledau Cyhoeddus i gyfarfod 5 Hydref 2023. Golyga hyn byddai dau gyfarfod yn ystod y flwyddyn yn cynnwys 4 eitem i'w graffu.

Ystyriwyd dyddiad i gael diweddariad pellach ar ddatblygiadau yn y maes cludiant cyhoeddus. Eglurwyd byddai modd i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor yn eu

cyfarfodydd cyswllt gyda'r Pennaeth a'r Aelod Cabinet drafod yr adeg fwyaf addas i'r eitem ddychwelyd i'r pwyllgor.

**PENDERFYNWYD**

**Mabwysiadwyd rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 gan nodi'r addasiadau isod:**

- **Symud yr eitem Toiledau Cyhoeddus o gyfarfod 22.02.2024 i gyfarfod 05.10.2023**
- **Ychwanegu'r eitem Llawlyfr Cynnal Priffyrdd i gyfarfod 22.02.2024**
- **Rhaglennu diweddariad o Ddatblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus pan yn amserol.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:30yb a gorffennodd am 13:05yp

__________________________________

CADEIRYDD

| Pwyllgor | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
|---|---|
| **Dyddiad** | 5 Hydref 2023 |
| **Teitl** | Cytundeb Cyflawni Drafft Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd |
| **Aelod Cabinet** | Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **Awdur** | Gareth Jones – Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd |
| **Pwrpas** | Cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni Drafft |

**1. Cefndir**

1.1 Bydd yr Aelodau yn ymwybodol fod Adroddiad Adolygu wedi cael ei baratoi ac mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2022 cytunodd y Cyngor Llawn i gyhoeddi'r Adroddiad Adolygu a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Casgliad yr Adroddiad Adolygu oedd bod angen paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd yn dilyn y weithdrefn Adolygiad Llawn. Yn dilyn y penderfyniad yma ym mis Mehefin 2022 penderfynodd y Cabinet i ddod ar gytundeb cydweithio efo Cyngor Sir Ynys Môn i ben a sefydlu Tîm Polisi Cynllunio ar gyfer Cyngor Gwynedd, fydd yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn unig.

1.2 Bydd y CDLl newydd yn cwmpasu cyfnod rhwng 2024 a 2039 a, phan gaiff ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor, bydd yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer datblygu a defnydd tir o fewn Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd (ac eithrio'r rhan honno a gwmpesir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri). Tra mae'r CDLl newydd yn cael ei baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026 bydd yn parhau i ddarparu'r fframwaith polisi ar gyfer penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

**2. Y Cytundeb Cyflawni**

2.1 Y cam cyntaf o'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ydi paratoi Cytundeb Cyflawni (CC). Mae'r CC mewn dau rhan fel sydd wedi nodi isod :

1. Amserlen o'r Camau Allweddol ar gyfer paratoi'r CDLl newydd; a
2. Cynllun Cynnwys Cymunedau sydd yn nodi sut a pryd gall y rhanddeiliaid a'r gymuned gyfrannu yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun.

2.2 Pwrpas y CC ydi gosod allan amserlen ar gyfer paratoi y CDLl a hefyd gosod allan y modd y mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu cynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd Cyngor Gwynedd. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn darparu manylion am y gwahanol gamau yn y broses a sut a phryd mae'r rhanddeiliaid yn gallu cymryd rhan.

2.3 Unwaith y cytunir arno gan Lywodraeth Cymru, mae'r CC yn ymrwymo'r Cyngor i gynhyrchu
y CDLl newydd o fewn yr amserlen sydd wedi ei gyflwyno yn y CC a hefyd i ymgynghori yn y modd sydd wedi ei osod allan yn y ddogfen.

**3. Crynodeb o gynnwys y Ddogfen drafft**

**Yr amserlen**

3.1 Mae’r amserlen sydd wedi ei osod allan yn y CC yn un heriol ond yn realistig. Wrth ddrafftio’r amserlen mae ystyriaeth wedi cael ei rhoi i ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru sydd wedi ei osod allan yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020), fod angen paratoi cynllun datblygu lleol o fewn 3.5 mlynedd. . Yn unol â’r amserlen sydd wedi ei osod allan isod (ag sydd i’w weld yn y CC drafft) rhagwelir y bydd y CDLl newydd yn cael ei fabwysiadu’n ffurfiol mis Medi/Hydref 2027. Mi fydd cadw i’r amserlen yn bwysig i sicrhau fod Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei fabwysiadau yn unol â’r amserlen ar gyfer cyflwyno fframwaith polisi cynllunio newydd ac yn amserol.

| Rhif y Cam | Cam | Amserlen | Cyfnodau Ymgynghoriad Allweddol |
|---|---|---|---|
| **Diffiniol** | | | |
| 1 | Cytundeb Cyflawni<br>- Paratoi<br>- Ymgynghori efo rhanddeiliaid allweddol<br>-Cyflwyno i Lywodraeth Cymru | Medi 2023 – Mawrth 2024 | Ymgynghoriad Cyhoeddus Hydref -Tachwedd 2023<br>Cymeradwyaeth gan y Cyngor Mawrth 2024<br>Cyflwyno i Lywodraeth Cymru Mawrth 2024 |
| 2 | Cyn adneuo - paratoi, cynnwys ag ymgynghori<br>- Papur Gweledigaeth ag opsiynau strategol<br>- Galw am safleoedd<br>Angen Papurau Cefndir Penodol | Mawrth 2024 - Awst 2025 | Galw am safleoedd Mawrth/Ebrill 2024 am o leiaf 6 wythnos |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ymgynghoriad Cyn Adneuo Strategaeth a Ffafrir<br><br>Asesiadau Effaith AC/AAS a ASC | Mawrth 2024 - Awst 2025 | Mawrth 2025 i Ebrill 2025 |
| 3 | Cynllun Adnau | Medi 2025- Awst 2026 | Ymgynghoriad Cyhoeddus<br><br>Rhagfyr 2025 /Ionawr 2026 |
| **Dangosol** | | | |
| 4 | Cyflwyno | Medi 2026 | n/a |
| 5 | Archwiliad | 11 mis o gyflwyno (targed) | Gellir fod ymgynghoriad pellach yn dilyn yr archwiliad |
| 6 | Adroddiad yr Arolygydd | Awst 2027 | |
| 7 | Mabwysiadu | Medi/Hydref 2027 (rhaid mabwysiadu o fewn o fewn 8 wythnos o dderbyn yr adroddiad) | n/a |

3.2 Fel sydd wedi ei nodi yn y tabl uchod mae'r prif gamau o baratoi Cynllun wedi ei rannu i gamau diffiniol a chamau dangosol.

3.3 Mae'r **camau diffiniol** yn cynnwys y camau hyd at y cynllun adnau, mae hyn yn cynnwys y cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Adnau. Mae gan y Cyngor rheolaeth dros y camau yma, mae hyn wedi cael ei gynllunio ar ei gyfer wrth baratoi'r CC ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y drefn adrodd sydd i'w weld yn atodiad 3 o'r CC. Mae hyn sydd yn ddisgwyliedig yn y camau uchod wedi cael ei osod allan yn fras isod. Mae'r camau yma yn cynnwys:

<u>Cyfranogiad Cyn Adneuo</u>

- Adolygu/diweddaru'r sail tystiolaeth
- Galw am safleoedd
- Paratoi papur gweledigaeth ac opsiynau strategol gan gynnwys lefelau a dosbarthiad twf
- Paratoi y Hoff Strategaeth gan gynnwys Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Asesiad Effaith Integredig yn cynnwys asesiad ar effaith ar yr Iaith Gymraeg , iechyd ayyb.
- Ymgynghoriad ar y weledigaeth, opsiynau strategol a'r Hoff Strategaeth
- Ystyried sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad a paratoi adroddiad ymgynghori cychwynnol.

<u>Cynllun Adnau</u>

- Paratoi Cynllun Adnau a'r dogfennaeth cysylltiol a diweddaru'r sail tystiolaeth
- Ymgynghori ar y Cynllun Adnau , Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Asesiad Effaith Integredig
- Asesu canlyniad yr ymgynghoriad a pharatoi Adroddiad Ymgynghori
- Paratoi dogfennau CDLl i'w cyflwyno

3.4 **Camau dangosol** - y camau yma ydi'r rhai sydd yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau a pharatoi'r dogfennau cysylltiedig i'r Llywodraeth ar gyfer Archwiliad Cyhoeddus. Mae gan y Cyngor llai o reolaeth dros yr amserlen ar y camau yma oherwydd mae'n cael ei ddylanwadu gan y nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau rydym yn ei derbyn ag hefyd ar raglen waith Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i gynnal yr Archwiliad.

**Cynllun Cynnwys y Gymuned**

3.5 Mae rheoliadau CDLl yn gosod allan yr angen ymgynghori ar bwyntiau penodol o'r broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a bod hi'n hanfodol wrth lunio CDLl i gynnwys pobol *i geisio sicrhau mwy o gonsensws a chryfhau cyfraniad y gymuned ar y broses o lunio cynllun* (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Mawrth 2020). Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn amlinellu sut y gall unigolion, asiantau, sefydliadau ac eraill fod yn rhan o'r broses o lunio'r cynllun. Mae'n nodi'r ffyrdd y bydd y Cyngor yn ymgysylltu a pryd fydd y cyfleoedd i bobol gyfrannu i'r broses o baratoi Cynllun. Mae Atodiad 6 o'r CC yn gosod allan y cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol, ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr oherwydd nid yw yn bosib i'r CC adnabod bob un o'r cyrff lleol sydd yn gweithio o fewn y Sir. Nid yw hyn yn golygu bod y cyrff yma ddim yn gallu fod yn rhan o'r broses, oherwydd mi fydd ymgynghoriadau bydd yn cael eu cynnal yn cael eu amlygu ar wefan y Cyngor a cyfryngau cymdeithasol, i geisio sicrhau fod pawb sydd a diddordeb yn y broses yn ymwybodol o'r cyfleon i gyfrannu. Hefyd mae'r ymgynghoriad ar y CC yn rhoi cyfle i bobl rhoi gwybod i'r Cyngor os mae yna fudiadau neu gyrff lleol ar goll sydd angen cael eui adnabod yn y CC. Mae gan y Cyngor basdata cysylltiadau sydd yn deillio o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac mi fydd y rhai sydd ar y basdata yn cael eu hysbysu o'r cyfleoedd ymgynghori. Gall unrhyw un ofyn am gael eu hychwanegu i'r basdata ar unrhyw adeg, a bydd unrhyw un sy'n cyflwyno sylwadau yn ystod unrhyw un o'r camau ymgynghori yn cael eu hychwanegu at y basdata.

**Asesiadau Effaith**

3.6 Fel rhan o baratoi CDLl fe fydd yn ofynnol cydymffurfio a'r gofynion Arfarniad Cynaliadwyedd. Fe fydd rhaid ail-ymweld a'r fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun mabwysiedig a'i ddiwygio yn ôl yr angen. Yn unol â deddfwriaeth fe fydd asesiad o'r effaith posib y CDLl ar yr iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i baratoi Arfarniad Integredig o Gynaliadwyedd bydd yn rhoi ystyriaeth i faterion cynaliadwyedd, amgylcheddol, iechyd, llesiant, cydraddoldeb mewn ffordd integredig yn unol a chanllawiau'r Llywodraeth.

3.7 Yn ogystal â'r gofynion Arfarniad Cynaliadwyedd, bydd yn ofynnol dangos sut mae'r CDLl yn cyfrannu tuag at amcanion y Ddeddf llesiant a'r 5 ffordd o weithio sydd wedi cael eu hadnabod yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi fod gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan hanfodol o ddatblygiad/adolygiad y fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd.

3.8 Bydd rhaid ymgymryd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r CDLl er mwyn pennu os yw'r polisïau a'r dynodiadau a gynhwysir yn y Cynllun yn debygol o effeithio ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd.

## 4. Ymgynghoriad Cytundeb Cyflawni

4.1 Mae gofyn statudol i ymgynghori a chyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol rhanddeiliaid ar gynnwys y Cytundeb Cyflawni, ond ystyriwyd hefyd yn briodol ymgynghori gyda'r rhai sydd ar basdata'r Cynllun Datblygu Lleol ynghyd a'r cyhoedd trwy hysbysu'r ymgynghoriad ar wefan y Cyngor a trwy gyfryngau cymdeithasol. Ystyriwyd fod hyn yn briodol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Cytundeb Cyflawni a sicrhau fod pawb sydd a diddordeb yn y CDLl yn ymwybodol fod gwaith yn cychwyn ar y CDLl a pryd fydd cyfleon i gyfrannu.

4.2 Mae paragraff 5 isod yn nodi'r camau nesaf cyn i'r CC cael ei gytuno gan Llywodraeth Cymru. Bydd cytundeb gan Lywodraeth Cymru ar y CC yn nodi cychwyn ffurfiol y broses o baratoi CDLl newydd. Unwaith mae'r CC wedi cael ei gyflwyno a'i gytuno gan y Llywodraeth mae hyn yn ymrwymo'r Cyngor i baratoi CDLl o fewn yr amserlen sydd wedi ei chytuno a dilyn y prosesau ymgynghoriad. Os bydd angen adolygu'r CC oherwydd llithriad yn yr amserlen, bydd rhaid i hyn cael ei gytuno gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi '*Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid ystyried amserlen ddiwygiedig wrth baratoi'r cynllun'*

## 5. Camau nesaf

| **Cyfarfod** | **Pryd** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| Cabinet | Hydref 2023 | Cytuno ar gynnwys y ddogfen a cytuno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus |
| Gweithgor Polisi Cynllunio | Ionawr 2024 | Ystyried y sylwadau wedi eu derbyn fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus |
| Cabinet | Chwefror 2024 | Ystyried y sylwadau wedi eu<br><br>derbyn fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn |
| Cyngor Llawn | Mawrth 2024 | Cytuno ar gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i Lywodraeth Cymru i'w gytuno a chychwyn y broses o baratoi'r CDLl yn ffurfiol. |

## 6. Argymhelliad

6.1 Pwrpas yr adroddiad ydi i gyflwyno copi drafft o'r Cytundeb Cyflawni i'r Pwyllgor, gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a cyflwyno unrhyw sylwadau ar gynnwys y Cytundeb Cyflawni. Mi fydd unrhyw sylwadau yn cael ei cyflwyno ar lafar i'r cyfarfod o'r Cabinet 10 Hydref 2023.

**Atodiad 1: Cytundeb Cyflawni drafft Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd**

# Cytundeb Cyflawni – Drafft
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

DRAFFT

# Cytundeb Cyflawni drafft – fersiwn ymgynghori
# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Gwynedd

**Cynnwys**


RHAN 1: Cyd-destun ........ 3
1.1 Cyflwyniad ........ 3
1.2 Y sefyllfa Bresennol ........ 6
1.3 Paratoi'r Cytundeb Cyflawni ........ 6
1.4 Profion Cadernid ........ 6
1.5 Arfarniad Cynaladwyedd Asesiadau Effaith Integredig ........ 7
1.6 Cydweithio ........ 7
1.7 Cynllun Datblygu Strategol (CDS) ........ 8
1.8 Canllawiau Cynllunio Atodol ........ 9
RHAN 2: Yr adnoddau a'r amserlen ........ 11
2.1 Yr adnoddau – staff ........ 11
2.2 Yr adnoddau – cyllid ........ 12
2.3 Yr amserlen ........ 12
RHAN 3: Rheoli risg ........ 14
3.1 Gwneud penderfyniadau ........ 14
3.2 Ffactorau a all ddylanwadu ar y broses ........ 14
RHAN 4: Monitro ac Adolygu ........ 15
4.1 Monitro ac adolygu yn erbyn y CC ........ 15
RHAN 5 – Cwmpas y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC) ........ 16
5.1 Cyflwyniad ........ 16
5.2 Amcanion ac egwyddorion y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC) ........ 16
5.3 Gan bwy fyddwn yn disgwyl cael mewnbwn? ........ 18
5.4 Pryd fydd y cymunedau a'r budd-ddeiliaid allweddol yn cymryd rhan yn y broses? ........ 19
5.5 Dulliau o Gysylltu, Ymgynghori a Chyfranogi ........ 19
5.6 Cysylltiadau â gwaith y Cyd Bwyllgorau Corfforedig a Gwaith ar y Cyd . 20
5.7 Ymglymiad Cynghorwyr ........ 20
5.8 Ymglymiad swyddogion y Cyngor ........ 21
5.9 Argaeledd Dogfennau ac Adborth ........ 21
5.10 Defnyddio'r iaith Gymraeg ac ieithoedd eraill ........ 21
5.11 Beth fydd yn ddisgwyliedig gan y cymunedau a'r budd-ddeiliaid allweddol? ........ 22
5.12 Y Gofrestr o Safleoedd Posib ........ 22
Atodiad 1 – Proses y Cytundeb Cyflawni ........ 23
Atodiad 2 - Camau allweddol ym mhroses paratoi'r CDLl a chyfleoedd gyfranogi ... 24
Atodiad 3 – Syniad o Adroddiadau a Phenderfyniadau Cyfnodau Allweddol y Cynllun Datblygu Lleol ........ 47
Atodiad 4 – Profion Cadernid ........ 48
Atodiad 5 - Risgiau posib a dulliau ymateb ........ 50
Atodiad 6 – Rhestr o Ymgyngoreion ........ 54


DRAFT

# Cytundeb Cyflawni drafft – fersiwn ymgynghori
# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Gwynedd

**<u>Mae'r ddogfen yma yn fersiwn drafft o'r CC sydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.</u>**

## RHAN 1: Cyd-destun

### 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru i baratoi **Cynllun Datblygu Lleol** (CDLl) ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r Cytundeb Cyflawni (CC) drafft yma wedi cael ei baratoi gan Gyngor Gwynedd yn gysylltiedig â pharatoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Yn dilyn ei fabwysiadu fe fydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn disodli'r Cynllun Datblygu ar y Cyd (y cynllun cyfredol). Nid yw'r rhannau o Wynedd sydd du mewn i Barc Cenedlaethol Eryri yn rhan o ardal y CDLl. Mae'r map ar dudalen tri yn dangos ardal y Cynllun Datblygu Lleol.

1.1.2 Mae'n rhaid paratoi CC cyn y gellir symud ymlaen i'r broses ffurfiol o baratoi'r CDLl. Mae'r CC ar ei ffurf derfynol yn rhan bwysig a chyfreithiol o'r broses o lunio'r CDLl ac mae'n ffurfio cytundeb swyddogol rhwng Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru. Yn ystod yr Archwiliad Cyhoeddus o'r CDLl fe fydd unrhyw wyriadau oddi wrth y CC na chafodd eu cytuno iddynt gan Lywodraeth Cymru yn ffurfio prawf pwysig o gadernid y CDLl. Mae cynnwys y CC a'r dull y bydd y Cyngor yn ei weithredu felly yn hanfodol i'r broses o baratoi CDLl cadarn.

1.1.3 Yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol 6, 8 a 9 a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu mae'r CC drafft yma wedi ei rannu i ddwy ran:

- **<u>Yr amserlen</u>** sydd yn gosod allan dyddiadau pendant ar gyfer y camau o baratoi'r CDLl hyd at y cyfnod Cynllun Adnau gyda dyddiadau dangosol hyd at fabwysiadau.


- **<u>Y Cynllun Cynnwys Cymunedau</u>**, a fydd yn gosod allan

  - gyda phwy fydd y Cyngor yn cysylltu wrth baratoi'r CDLl;
  - sut a phryd y gall swyddogion y Cyngor, Aelodau etholedig, y cyhoedd, grwpiau sydd gan ddiddordeb yn yr ardal, a datblygwyr gyfrannu at y broses gyfan;
  - beth fydd yn digwydd i'r ymatebion.

Ceir manylion am y Cynllun Cynnwys Cymunedau yn Rhan 5 o'r CC.


DRAFFT

1.1.4 Mae CC hefyd yn gosod allan sut y bydd y CDLl yn cael ei asesu yn unol â gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020) trwy'r Arfarniad Cynaladwyedd ag Asesiadau Effaith Integredig yn cynnwys Asesiad Effaith y Cynllun ar yr Iaith Gymraeg. Ceir mwy o wybodaeth am faterion sydd angen ei ystyried wrth baratoi CDLl yn y ffigwr isod (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Mawrth 2020).



*Gweler Pennod 8 am y weithdrefn adolygu ffurf fer*

## Cytundeb Cyflawni drafft – fersiwn ymgynghori
## Cynllun Datblygu Lleol Newydd Gwynedd




**Map 1: Ardal y CDLl**

## 1.2 Y sefyllfa Bresennol

1.2.1 Paratowyd Adroddiad Adolygu yn dilyn adolygiad o’r CDLl ar y Cyd, a daethpwyd i’r casgliad fod angen ymgymryd ag Adolygiad Llawn o’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Ers i’r Adroddiad Adolygu cael ei baratoi mae penderfyniad wedi cael ei wneud gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i ddod a’r gytundeb cydweithio i ben, a pharatoi Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol Unigol.

1.2.2 Er ei fod yn CDLl newydd, mi fydd y Cynllun yn adeiladu ar waith y CDLl presennol (lle yn berthnasol) ac os , er enghraifft mae materion, amcanion, tystiolaeth sylfaenol, polisïau neu gynigion, yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol yn dilyn eu hail-asesu’n drylwyr, gellir parhau a hwy yn y CDLl newydd.

## 1.3 Paratoi’r Cytundeb Cyflawni

1.3.1 Caiff CC drafft ei baratoi ac fe fydd yn destun ymgynghoriad gyda budd-ddeiliaid allweddol. Rhoddir ystyriaeth lawn i bob sylw a dderbynnir ac fe gaiff y CC ei ddiwygio lle y bydd yn briodol i wneud hynny. Os fydd y Cyngor yn penderfynu eu bod yn fodlon gyda’r CC fe gaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer cael ei gytundeb. Mae Atodiad 1 yn cynnwys siart lif sy’n dangos y broses sy’n rhaid ei ddilyn wrth baratoi’r CC. Bydd rhaid i’r Cyngor gadw golwg ar y cynnydd yn erbyn cynnwys ac amserlen y CC. Os bydd angen gwneud diwygiadau yna fe fydd yn rhaid dilyn yr un broses unwaith eto.

## 1.4 Profion Cadernid

1.4.1 Rhaid i’r CDLl basio’r prawf “cadernid” h.y. mae rhaid i’r Cyngor sicrhau fod y Cynllun yn cael ei baratoi yn gywir ac yn bodloni’r tri phrawf cadernid sydd wedi eu gosod allan yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 (Mawrth 2020) sef:

1. A yw'r cynllun yn addas? (A yw'n glir bod y CDLl yn gyson â chynlluniau eraill?
2. A yw'r cynllun yn briodol? (A yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)
3. A fydd y Cynllun yma yn Cyflawni? (A yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)

1.4.2 Yr Arolygydd a fydd yn cynnal yr Archwiliad Cyhoeddus fydd yn penderfynu os ydi’r CDLl yn gadarn. Gweler rhagor o wybodaeth am y profion o gadernid yn Atodiad 4 i’r CC yma.

DRAFFT

## 1.5 Arfarniad Cynaladwyedd Asesiadau Effaith Integredig

1.5.1 Ar gyfer y CDLl rhaid i'r Cyngor ystyried sefydlu'r llinell sylfaen Arfarniad o Gynaliadwyedd (AC), sydd yn cynnwys gofynion Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ac ailystyried dilysrwydd y fframwaith AC mabwysiadawy ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd cyfredol. Os oes rhannau or' fframwaith AC ar gyfer y CDLl cyfredol yn dal yn berthnasol, gellir ei ei ddiweddaru ar gyfer y CDLl newydd.

1.5.2 Mae canllawiau sydd wedi eu gosod allan yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020) yn datgan y gall Asesiad Effaith Integredig ffordd synhwyrol o asesu effaith y Cynllun ar feysydd penodol, yn cynnwys y ddeddf lleisiant genedlaethau'r dyfodol, effeithiau iechyd, effaith ar yr Iaith Gymraeg, Effaith cydraddoldeb. Mi fydd adroddiad cwmpasu yn cael ei baratoi ag mi fydd ymgynghoriad ar yr adroddiad yn gynnar yn y broses o baratoi'r Cynllun, er mwyn sicrhau fod y Fframwaith sydd yn cael ei ddefnyddio yn briodol.

1.5.3 Unwaith mae'r fframwaith AC/AEI wedi cael ei sgopio mi fydd yn cael ei ddefnyddio i asesu polisïau a chynigion sydd yn cael eu datblygu a'u cyflwyno fel rhan o'r Cynllun. Mi fydd adroddiadau yn cael eiu paratoi ochr yn ochr a'r camau penodol o'r broses o baratoi'r CDLl, fydd yn dogfennu'r asesiadau ar y camau yma. Mi fydd yr asesiadau sydd yn cael eu cynnal yn rhan o'r ymgynghoriadau ar y camau penodol (sydd wedi eu gosod allan yn atodiad 2. Mi fydd yr AS/AEI yn rhan bwysig o wneud asesiadau o safleoedd posib fydd yn dod ymlaen trwy'r broses galw am safleoedd.

1.5.4 Mi fydd asesiad rheoliadau cynefinoedd ARhC hefyd yn cael ei gynnal. Mi fydd yr ARhC yn cael ei baratoi ar wahân i'r AC/AEI. Mae'r ARhC yn cynorthwyo paratoi'r strategaeth, polisïau a dyraniadau tir y CDLl trwy nodi eu potensial i effeithio ar gynefinoedd amgylcheddol a ddynodwyd yn genedlaethol h.y., Ardaloedd Arbennig o Ardaloedd Cadwraeth, Gwarchodaeth Arbennig a safleoedd Ramsar. Lle byddai cynllun defnydd tir sydd â'r potensial i effeithio'n sylweddol ar safle, mae angen Asesiad Priodol manwl i asesu'r effeithiau ac i ystyried addasrwydd opsiynau a mesurau lliniaru.

## 1.6 Cydweithio

1.6.1 Roedd y cytundeb cydweithio ar faterion polisi cynllunio yn cynnwys paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Fe wnaeth y trefniant cydweithio ddod i ben ar y 31 Mawrth 2023 yn dilyn penderfyniad gan Gabinet Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn, i sefydlu timau polisi

DRAFT

cynllunio newydd ar gyfer y ddau Gyngor. Er bod y trefniadau cydweithio wedi dod i ben a bod y ddau Gyngor yn symud ymlaen i baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ar wahân, pan fo cyfleoedd yn codi i baratoi neu gomisiynu darnau o waith ar y cyd mi fydd addasrwydd hynny yn cael ei ystyried.

1.6.2 Mae’r camau mae'r Awdurdodau cyfagos wedi ei gyrraedd mewn perthynas â’i Chynlluniau Datblygu Lleol hwy wedi ei nodi yn y tabl isod:-

| Awdurdod | Cam |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistrefol Sir Conwy | Adneuo |
| Cyngor Sir Powys | Hoff Strategaeth |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Adroddiad Adolygu |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Aqdroddiad Adolygu |

1.6.3 Wrth ystyried y camau mae’r Awdurdodau uchod wedi cyrraedd, yr unig Awdurdod Cynllunio Lleol (gan eithrio Cyngor Sir Ynys Môn) sydd ar fin cychwyn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ydi Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Ni ystyrir fod cydweithio gyda’r Parc Cenedlaethol i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd yn opsiwn oherwydd y gwahaniaethau mewn blaenoriaethau, gweledigaeth ac amcanion y ddau gynllun. Mae Eryri yn ardal llawer mwy gwledig gyda phoblogaeth llawer llai sydd hefyd yn cynnwys rhan o ardal Conwy. Gan ystyried rol statudol y Parc a bod unrhyw dwf yn cael ei gyfarch gan Gynlluniau Datblygu Lleol Gwynedd a Chonwy.

1.6.4 Er hyn sydd wedi nodi uchod nodir fod yna fwriad i gydweithio hefo Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos wrth baratoi'r Cynllun, gan dderbyn eu mewnbwn hwy mewn perthynas â datblygiad y Cynllun a sicrhau fod y Cynllun yn gydnaws a Chynlluniau'r awdurdodau hynny. Ymhellach, fel yn briodol, fe all fod yna cyfleoedd i gynnal astudiaethau/datblygu sail tystiolaeth ar y cyd. Mae hyn yn digwydd yn barod rhwng Môn, Gwynedd a’r Parc Cenedlaethol efo Adolygiad o Dir Cyflogaeth ac Asesiad o anghenion Sipsiwn a theithwyr.

## 1.7 Cynllun Datblygu Strategol (CDS)

1.7.1 Mae’r sustem gynllunio yng Nghymru yn cynnwys tair haen efo Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn eistedd ar y brig efo Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol yn eistedd o dan. Y Cynllun Cenedlaethol, ydi’r fframwaith cenedlaethol sydd yn pennu cyfeiriad datblygu yng Nghymru ag yn mynd hyd at 2040 efo strategaeth sydd yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi sy'n ffynnu, datgarboneiddio a sicrhau hinsawdd gadarn, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau.

DRAFT

1.7.2 Mae Cyngor Gwynedd yn rhan o ranbarth y Gogledd ac mae disgwyl i Gynllun Datblygu Strategol cael er baratoi ar gyfer y rhanbarth. Fodd bynnag does dim tîm rhanbarthol mewn lle ar hyn o bryd, a does dim Cytundeb Cyflawni wedi cael ei baratoi eto ar gyfer paratoi'r CDS, felly does dim amserlen ar gyfer paratoi CDS a mabwysiadau'r CDS ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i waith ar baratoi CDLl newydd fwrw ymlaen i sicrhau fod yna fframwaith polisi lleol cyfredol ar gyfer ardal cynllunio lleol Gwynedd mewn lle cyn gynted ag y bo modd.

1.7.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai fod cyfleoedd cydweithio defnyddiol i'w harchwilio a'u cyflawni wrth ystyried casglu tystiolaeth gellir fod yn ddefnyddiol i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol.

1.7.4 Mae'n rhaid i Gynlluniau datblygu lleol cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC a/neu'r Cynllun Datblygu Strategol (pan gaiff ei fabwysiadau) ac mae hyn yn un o'r profion cadernid bydd yn cael ei archwilio yn ystod yr archwiliad y CDLl.

## 1.8 Canllawiau Cynllunio Atodol

1.81 Mae'r Cynllun cyfredol yn cael ei gefnogi gan gyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi ei rhestru isod

| |
|---|
| Canllaw Cynllunio Atodol – Cymysgedd Tai (Hydref 2018) |
| Canllaw Cynllunio Atodol – Llecynnau Agored mewn Datblygiadau Tai Newydd (Mawrth 2019) |
| Canllaw Cynllunio Atodol - Tai Marchnad Lleol (Mawrth 2019) |
| Canllaw Cynllunio Atodol - Tai Fforddiadwy (Ebrill 2019) |
| Canllaw Cynllunio Atodol - Ail-adeiladu tai a throsi yng nghefn gwlad (Medi 2019) |
| Canllaw Cynllunio Atodol - Ymrwymiadau Cynllunio |

| |
|---|
| Canllaw Cynllunio Atodol - Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy |
| Canllaw Cynllunio Atodol - Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth, ac unedau manwerthu |
| Canllawiau Cynllunio Atodol - Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid |
| Canllaw Cynllunio Atodol - Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru |

1.8.2 Pwrpas CCA ydi

- Cynorthwyo ymgeiswyr a'u hasiantau wrth baratoi'r cynigion cynllunio ac i'w harwain mewn trafodaethau gyda swyddogion cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio, a
- helpu Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau. Y nod cyffredinol yw gwella ansawdd datblygiad newydd a hwyluso dull cyson a thryloyw o wneud penderfyniadau.

1.8.3 Fel rhan o baratoi'r CDLl bydd angen adolygu'r canllawiau presennol i sicrhau eu bod dal yn ddilys ac yn cefnogi'r polisïau sydd yn cael eu paratoi fel rhan o'r CDLl. Mi fydd hefyd angen rhoi ystyriaeth i'r angen i baratoi unrhyw CCA newydd i gefnogi polisïau CDLl. Os bydd angen paratoi CCA newydd bydd hyn yn cael ei nodi wrth i'r broses o baratoi'r Cynllun fynd yn ei flaen. Mi fydd unrhyw CCA newydd yn destun ymgynghoriad gyda rhanddeiliad perthnasol.

DRAFT

# Cytundeb Cyflawni drafft – fersiwn ymgynghori
# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Gwynedd

## RHAN 2: Yr adnoddau a'r amserlen

2.0.1 Mae'r amserlen ar gyfer y gwahanol gamau yn y broses o baratoi CDLl, sut gaiff y broses ei reoli a gwybodaeth am yr adnoddau sy'n angenrheidiol ar ei gyfer yn rhan allweddol o'r Cytundeb Cyflawni (CC).

## 2.1 Yr adnoddau – staff

2.1.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor ymrwymo adnoddau staff ac adnoddau ariannol ar gyfer cymryd y gwahanol gamau yn y broses o baratoi'r CDLl.

2.1.2 Gan fod y Tîm Polisi Cynllunio eisoes wedi bod trwy'r broses o baratoi a mabwysiadu'r CDLl cyfredol, mae ganddynt wybodaeth a phrofiad helaeth. Mae'r profiad yma yn werthfawr ac yn golygu fod dealltwriaeth o beth sydd ei angen wrth baratoi CDLl. Yn ogystal â hyn oherwydd bod CDLl mewn lle yn cynnwys y sail tystiolaeth fanwl, golygir hyn ei fod yn bosib adolygu polisïau presennol a diweddaru sail tystiolaeth bresennol gall olygu fod y llwyth gwaith yn llai na'r hyn oedd ei angen pan gynhyrchwyd y CDLl cyntaf. Mae'r tabl isod yn dangos yr adnoddau staff.

DRAFT

| Teitl y Swyddog | % amser a ddyrannwyd ar gyfer y CDLl |
|---|---|
| Pennaeth Cynorthwyol | 10 |
| Rheolwr Polisi Cynllunio x1 | 60 |
| Arweinyddion Tîm x2 | 70 |
| Uwch Swyddogion Cynllunio x2 | 85 |
| Swyddog Cynllunio x1 | 90 |
| Swyddog Cefnogol x1 | 90 |

2.1.3 Bydd swyddogion o Wasanaethau eraill y Cyngor hefyd yn rhan o wahanol agweddau o'r broses o baratoi'r CDLl yn ôl y galw. Bydd y gefnogaeth yma'n cynnwys cymorth wrth lunio polisïau, asesiad cynaliadwyedd, asesiad rheoliadau cynefinoedd a chyngor arbenigol i ymateb i sylwadau a dderbynnir. Bydd Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu/Tîm Cyfathrebu'r Cyngor yn cynorthwyo yn y camau cyfranogiad ac ymgynghori yn ôl y galw.

2.1.4 Pan yn briodol, caiff ymgynghorwyr allanol eu comisiynu i wneud arolygon technegol/ arbenigol, i ychwanegu at gapasiti'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio, neu i roi cyngor ar faterion penodol technegol/ arbenigol. Mae adnoddau ariannol ar gael ar gyfer y gwaith yma.

## 2.2 Yr adnoddau – cyllid

2.2.1 Ar sail profiadau o baratoi cynlluniau datblygu yn y gorffennol a phrofiadau awdurdodau eraill, mae'r Cyngor wedi neilltuo swm o arian er mwyn sicrhau bod y CDLl yn symud ymlaen drwy'r broses yn unol â'r Cytundeb Cyflawni, ac o leiaf hyd at ddiwedd yr Archwiliad Cyhoeddus. Gwneir ceisiadau am ragor o gyllid, os bydd angen, trwy brosesau bidio mewnol arferol y Cyngor.

## 2.3 Yr amserlen

2.3.1 Mae'r tabl isod yn gosod allan y camau allweddol yn y broses o baratoi'r CDLl ac mae'n nodi'r amserlen fras arfaethedig ar gyfer cwblhau'r camau hynny. Mae'r amserlen yn seiliedig ar yr adnoddau a gyfeiriwyd at uchod. Ceir amserlen fwy manwl yn Atodiad 2.

2.3.2 Mae'r Amserlen yn adlewyrchu'r arweiniad yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020). Mae wedi ei rannu yn ddwy ran efo camau diffiniol a chamau dangosol.

| Rhif y Cam | Cam | Amserlen | Cyfnodau Ymgynghoriad Allweddol |
|---|---|---|---|
| Diffiniol | | | |
| 1 | Cytundeb Cyflawni<br>- Paratoi<br>- Ymgynghori efo rhanddeiliad allweddol<br>-Cyflwyno | Medi 2023 – Mawrth 2024 | Ymgynghoriad Cyhoeddus Hydref-Tachwedd 2023<br><br>Cymeradwyaeth gan y Cyngor Mawrth 2024<br><br>Cyflwyno i Lywodraeth Cymru Mawrth 2024 |
| 2 | Cyn adneuo - paratoi, cynnwys ag ymgynghori<br><br>- Papur Gweledigaeth ag opsiynau strategol<br>- Galw am safleoedd | Mawrth 2024 - Awst 2025 | Galw am safleoedd Mawrth/Ebrill 2024 am o leiaf 6 wythnos |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Angen Papurau Cefndir Penodol | | |
| | Ymgynghoriad Cyn Adneuo Strategaeth a Ffafrir<br>Asesiadau Effaith AC/AAS a HRA | Mawrth 2024 - Awst 2025 | Mawrth 2025 i Ebrill 2025 |
| 3 | Cynllun Adnau | Medi 2025- Awst 2026 | Ymgynhoriad Cyhoeddus Rhagfyr 2025 /Ionawr 2026 |
| | **Dangosol** | | |
| 4 | Cyflwyno | Medi 2026 | n/a |
| 5 | Archwiliad | 11 mis o gyflwyno (targed) | Gellir fod ymgynghoriad pellach yn dilyn yr archwiliad |
| 6 | Adroddiad yr Arolygydd | Awst 2027 | |
| 7 | Mabwysiadau | Medi/Hydref 2027 (rhaid mabwysiadau o fewn o fewn 8 wythnos o dderbyn yr adroddiad) | n/a |

DRAFT

## RHAN 3: Rheoli risg

### 3.1 Gwneud penderfyniadau

3.1.1 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, cyfrifoldeb Cabinet Cyngor Gwynedd fydd gwneud penderfyniadau am gynnwys y dogfennau yn gynnar yn y broses o baratoi'r CDLl e.e. Cytundeb Cyflawni a'r Dogfennau Cyd-adneuo. Bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth lawn o ystyriaethau am gynnwys dogfennau ar wahân i'r adegau lle mae angen awdurdod y Cyngor Llawn fel rhan o'r broses statudol ( h.y. Cytundeb Cyflawni a Mabwysiadau'r Cynllun yn derfynol). Mae'r tabl yn Atodiad 3 yn adnabod beth yw rôl y gwahanol bwyllgorau.

### 3.2 Ffactorau a all ddylanwadu ar y broses

3.2.1 Mae'r Cyngor o'r farn fod yr amserlen a nodwyd yn realistig ac yn un y gellir ei chyflawni. Gwneir pob ymdrech i gadw at yr amserlen honno. Er hynny, adnabuwyd rhai materion lle mae yna risg allai arwain at wyriad oddi wrth yr amserlen a nodwyd yn y CC yma. Ceir mwy o fanylion am y risgiau a'r camau a fwriedir eu cymryd er mwyn cwrdd/ lleihau'r risgiau yma yn Atodiad 5.

DRAFT

## RHAN 4: Monitro ac Adolygu

### 4.1 Monitro ac adolygu yn erbyn y CC

4.1.1 Bydd y Cabinet yn monitro ac adolygu cynnydd yn erbyn y CC trwy gydol y gwaith o baratoi'r CDLl, er mwyn sicrhau bod camau'r CC yn cael eu cyflawni'n unol â'r amserlen a gynigiwyd. Mae'r achosion lle gallai fod angen adolygu a newid y CC yn cynnwys y canlynol:

- Os yw'r broses gryn dipyn ar ei hôl hi o ran yr amserlen (3 mis)
- Os oes angen unrhyw newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau
- Os oes newidiadau sylweddol yn yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor
- Os bydd deddfwriaeth, rheoliadau neu arweiniad newydd yn y DU neu Lywodraeth Cymru yn gofyn bod gweithdrefnau neu dasgau newydd yn cael eu rhoi ar waith
- Os bydd unrhyw newidiadau eraill na elli eu rhagweld yn effeithio'n faterol ar gyflwyno'r cynllun yn unol â'r CC.

4.1.2 Os bydd y Cyngor yn nodi angen am adolygu'r CC bydd angen trafod eilwaith gyda'r cyrff ymgynghori penodol a cheisio cytundeb gyda Llywodraeth Cymru yn unol â Rheoliadau'r CDLl.

DRAFT

## RHAN 5 – Cwmpas y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC)

### 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae Rheoliadau'r CDLl yn gofyn bod y Cynghorau'n gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid a'r gymuned yn fuan yn y broses o baratoi'r CDLl. Mae Deddf Llesiant 2015 wedi cyflwyno saith nod llesiant i helpu sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, o Gymru gynaliadwy ac yn pennu'r 'Pum Ffordd o Weithio' y mae angen i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi cyflawni wrth ymgymryd â'u dyletswydd datblygu gynaliadwy. Mae rhoi ystyriaeth i'r 5 ffordd o weithio isod yn rhan bwysig o'r system Cynlluniau Datblygu Lleol.

| | |
|---|---|
| **Hirdymor** | - Ystyried sut gall yr hyn a wnawn yn awr effeithio ar gymunedau a gwasanaethau yn y dyfodol |
| **Atal** | - Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu |
| **Integreiddio** | - Ystyried sut mae'r amcanion llesiant yn cyfrannu at bob un o'r nodau llesiant, yn effeithio ar amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill |
| **Cydweithio** | - Gweithio gydag eraill i gyflawni'r amcan llesiant |
| **Cynnwys** | - Cynnwys pobl yn y gwaith o gyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth cymunedau lleol |

5.1.2 *Un o amcanion allweddol y system Cynlluniau Datblygu ydi y dylai Cynlluniau fod* ***yn seiliedig ar gynnwys cymunedau yn gynnar, yn effeithiol ac yn ystyrlon er mwyn deall ac ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau,*** *(Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Mawrth 2020).* Mae'r CC yn nodi sut, a phryd y bydd cymunedau yn cael eu cynnwys yn y broses CDLl er mwyn rhoi'r cyfle i gymunedau helpu llunio a dylanwadau ar y cynnwys yn effeithiol.

5.1.3 Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn gosod allan yr hyn mae'r Cyngor yn fwriadu gwneud lle mae amser yn caniatáu ag os yn berthnasol gall y Cyngor ddarparu cyfnodau ychwanegol o ymgysylltu.

DRAFT

### 5.2 Amcanion ac egwyddorion y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC)

5.2.1 Pwrpas cyfranogiad cyhoeddus yw cael ystod eang o gymunedau, unigolion sydd â diddordeb a chyrff ymgynghorol penodol yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am gynnwys y CDLl. Gwneir hynny trwy annog trafodaeth a rhannu gwybodaeth berthnasol. Mae'r Cyngor o'r farn bod cynnwys cymunedau ym mhroses y CDLl yn gynnar yn hanfodol i sicrhau perchnogaeth leol a chyfreithlondeb polisïau a fydd

yn pennu datblygiad yr ardal i'r dyfodol. Dylai'r dull hwn leihau'r amser a gymerir i fabwysiadu'r cynllun trwy leihau nifer y gwrthwynebiadau i bolisïau yn y CDLl adnau, ac felly leihau'r amser a dreulir yng nghyfnodau diweddarach y broses o baratoi'r cynllun. Cynorthwyir y broses o greu consensws trwy sefydlu a rhannu sylfaen gyffredin o wybodaeth ar gyfer y materion allweddol o ddechrau'r broses. Mae'r dull yma o weithio yn cael ei atgyfnerthu wrth ystyried arweiniad yn y Canllaw Cynlluniau Datblygu Mawrth 2020. Mae'n gosod allan y pwysigrwydd o ymgynghori yn gynnar yn y broses o baratoi Cynllun i sicrhau fod dealltwriaeth ag ystyried *amrywiaeth eang o safbwyntiau, gyda'r nod o adeiladu consensws eang ar y strategaeth ofodol, polisïau a chynigion*.

5.2.2 Mi fydd yn bwysig i'r rhai sydd efo diddordeb yn y cynllun cymryd rhan ym mhob un cam o'r broses, gan gynnwys y camau cychwynnol lle mae'r cyfleoedd i helpu i siapio a dylanwadu ar y cynllun. Mae'r Cyngor yn ystyried fod y CCC yma yn gosod allan yr amgylchiadau i wneud hyn yn bosib.

5.2.3 Bydd y CCC yn darparu dealltwriaeth o'r canlynol:
- Y cyfnodau pryd y gall cymunedau fod yn rhan o'r broses ac i ba raddau;
- Yr ystod o ddulliau a'r technegau posib a ddefnyddir i sicrhau y gall cymunedau gymryd rhan yn y broses.

5.3.4 Mae'r tabl isod yn gosod allan egwyddorion cyfranogiad cyhoeddus

| | |
|---|---|
| **Gallu cael gafael mewn gwybodaeth** | Er mwyn i gymunedau a budd-ddeiliaid allu gwneud dewisiadau cywir a deall cyd-destun y CDLl, fe fydd gwybodaeth briodol yn cael ei ddarparu'n amserol, ac ar ffurf hawdd i'w gael a dealladwy. |
| **Cymryd rhan yn fuan** | Sicrhau bod cymunedau a budd-ddeiliaid yn cael pob cyfle i gymryd rhan a chyfranogi o'r cam cyntaf yn y broses o baratoi'r CDLl. Byddwn yn annog cyfraniadau ar yr adegau penodol yn ystod gwaith paratoi'r CDLl pryd y gall syniadau ddylanwadu orau ar y broses. |
| **Addasrwydd yr wybodaeth** | Bydd yr wybodaeth a fydd ar gael yn annog ymglymiad a chyfranogiad drwy gydol y broses ac fe fydd yn addas a pherthnasol i bob grŵp penodol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir ac anghenion a phrofiad y cymunedau a'r budd-ddeiliaid |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Adborth rheolaidd** | Darparu adborth rheolaidd fel y gall y cymunedau a'r budd-ddeiliaid ddeall sut fydd syniadau'n datblygu neu wybod pam nad all syniadau gael eu datblygu'n mhellach. |
| **Tryloywder** | Bod yn glir o'r cychwyn ynglŷn â phwy fydd yn cymryd rhan a phryd yn ogystal â'u rôl yn ystod pob cam. |
| **Rhannu gwybodaeth** | Sicrhau y bydd cyfraniadau gan gymunedau yn cael eu bwydo i waith ar gynlluniau a strategaethau allweddol eraill. |

## 5.3 Gan bwy fyddwn yn disgwyl cael mewnbwn?

5.3.1 Byddwn yn canolbwyntio ar gael mewnbwn gan y canlynol:

**Y Cyhoedd,** sef aelodau unigol sydd yn byw, gweithio neu aros yn ardal y CDLl. Mae hyn yn cynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd er enghraifft, pobl ifanc, yr henoed, Sipsiwn a Theithwyr, unigolion anabl ac unigolion sy'n dioddef oherwydd amddifadedd economaidd a chymdeithasol. Bydd gan bartneriaethau presennol rôl i chwarae i gyrraedd rhai o'r rhain. Fe fydd gan rhai o'r cyrff ymgynghori cyffredinol a gyfeirir ato isod le i chwarae hefyd.

**Busnesau, tirfeddianwyr, datblygwyr a'u asiantau**: Bydd gan ambell gorff ymgynghori cyffredinol rôl i'w chwarae i gyrraedd rhai yn y gymuned fusnes, tirfeddianwyr a datblygwyr. Fe fydd cyfle i dirfeddianwyr a darpar ddatblygwyr a'u hasiantau gyflwyno syniadau /cynigion am dir a allai fod ar gael i'w ddatblygu yn fuan yn y broses drwy gofnodi gwybodaeth ar y **Gofrestr o Safleoedd Posib** (gweler para 5.12).

**Cyrff ymgynghori cyffredinol:** sef grwpiau & mudiadau sydd gan ddiddordeb penodol yn yr ardal, e.e. cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hil neu ethnig; cyrff sy'n cynrychioli buddiannau'r rhai sy'n cynnal busnes yn ardal y CDLl; cyrff sy'n cynrychioli buddiannau'r diwylliant Cymreig yn yr ardal. Mae rhestr o'r rhain i'w weld yn Atodiad 6.

**Cyrff ymgynghori penodol,** sef y rhai mae'n rhaid i'r Cyngor ymgynghori a hwy, e.e. Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw, Cynghorau Cymuned a Thref/ Dinas ac awdurdodau cyfagos. Mae rhestr o'r rhain i'w weld yn Atodiad 6

DRAFT

**Basdata Cysylltiadau:** Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd cyfredol, datblygwyd basdata cysylltiadau oedd yn cynnwys nifer fawr o unigolion a sefydliadau oedd wedi dangos diddordeb yn y broses o baratoi'r Cynllun, neu oedd wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau a'r camau penodol o'r baratoi CDLl ar y Cyd. Mae'r basdata yma wedi cael ei drosglwyddo fel basdata cysylltiadau ar gyfer CDLl Gwynedd ac ystyrir ei fod yn fasdata cynhwysfawr. Fodd bynnag mae gan unrhyw un yr hawl i ofyn i gael ei hychwanegu i'r basdata cysylltiadau ar unrhyw amser neu gael ei dynnu oddi ar y basdata. Bydd unrhyw un sydd yn cyflwyno sylwadau yn ystod unrhyw un o'r cyfnodau ymgynghori'n cael ei ychwanegu i'r basdata cysylltiadau.

## 5.4 Pryd fydd y cymunedau a'r budd-ddeiliaid allweddol yn cymryd rhan yn y broses?

5.4.1 Mae'r amserlen ar gyfer paratoi'r CDLl i'w weld yn Atodiad 2. Mae yna wybodaeth yno hefyd am y cyfleoedd a fydd ar gael i'r cymunedau a'r budd-ddeiliaid allweddol gymryd rhan yn y broses.

**Asesiad Cynaladwyedd/ Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS)**

5.4.2 Bydd rhaid i bob cam o'r broses CDLl fod yn destun AC. Mae AC yn broses dechnegol ond fe roddir cyfleoedd i bobl sydd â diddordeb ynddo i gyflwyno sylwadau. Un darn o waith a fydd angen ei wneud yn fuan yn y broses yma fydd ail ymweld â'r sail dystiolaeth sydd yn cefnogi'r AC, sydd yn paratoi gwybodaeth am nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal. Bydd y sail dystiolaeth yma a gwybodaeth arall yn ffurfio rhan o Adroddiad Sgopio. Bydd yr Adroddiad yma yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

## 5.5 Dulliau o Gysylltu, Ymgynghori a Chyfranogi

5.5.1 Defnyddir sawl dull i hwyluso ymglymiad budd-ddeiliaid a chymunedau ar hyd y broses o baratoi'r CDLl

- Gwefan y Cyngor – bydd rhan penodol o'r wefan yn cael ei neilltuo ar gyfer cadw newyddion am y CDLl (www.gwynedd.llyw.cymru )
- Newyddlen "Gair o Gyngor", y fewnrwyd, e-fwletinau staff
- Siop Gwynedd Nghaernarfon, Dolgellau, a Phwllheli, llyfrgelloedd cyhoeddus y Sir
- Defnydd o ddigwyddiadau / cyfarfodydd sy'n bodoli yn barod e.e. grwpiau ieuenctid



DRAFT

- Cyswllt uniongyrchol (trwy lythyr / e-bost)
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth i aelodau a diweddariadau ar fewnrwyd yr aelodau
- Negeseuon ar wefan y cyngor a’r cyfryngau cymdeithasol
- Cynnal gweithdai/ cyfarfodydd agored/rhithiol
- Erthyglau yn ‘Newyddion Gwynedd’

5.5.2 Yn ogystal â’r uchod mae’r Cyngor yn ymroddedig i ddefnyddio rhwydweithiau a phartneriaethau sydd eisoes yn bodoli. Byddem hefyd yn defnyddio grwpiau sydd wedi cael eu sefydlu yn barod gan y Cyngor i gael mewnbwn i’r broses o baratoi’r CDLl.

## 5.6 Cysylltiadau â gwaith y Cyd Bwyllgorau Corfforedig a Gwaith ar y Cyd

5.6.1 Wrth baratoi’r CDLl, mae’n bwysig bod y Cyngor yn gwbl ymwybodol o gynigion a datblygiadau mewn awdurdodau cyfagos a thu hwnt allai effeithio ar ardal y CDLl. Mae’n debygol iawn y bydd gwaith yn cychwyn ar y Cynllun Datblygu Strategol yn ystod y cyfnod o baratoi’r CDLl. Mi fydd yn bwysig fod y Cyngor yn ymwybodol o’r gwaith yma ac yn sicrhau eu bod yn rhoi mewnbwn i’r broses yma.

. Bydd perthynas waith agos yn cael ei feithrin gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a Chynghorau Conwy, Ceredigion, Dinbych, Fflint Phowys, Wrecsam ag Ynys Môn trwy raglenni rheolaidd o gyfarfodydd.

## 5.7 Ymglymiad Cynghorwyr

5.7.1 Bydd pob Cynghorydd yn derbyn gwybodaeth ar adegau pwysig drwy gydol y broses o baratoi’r CDLl, er enghraifft: trafodaeth ar y weledigaeth; nodau ac amcanion strategol ar gyfer y CDLl; ystyriaeth o’r strategaeth a ffafrir – sef y camau pwysig cyntaf; ac yn nes ymlaen pan geir trafodaethau ar faterion penodol o ran safleoedd ac aneddleoedd. Bydd gan y Cynghorwyr hefyd rôl bwysig oherwydd eu gwybodaeth leol i weithredu fel “hyrwyddwyr” lleol, er mwyn codi ymwybyddiaeth yn y cymunedau ac felly hwyluso’r broses o lunio’r CDLl. Bydd cyfraniadau’r Cynghorwyr yn cael eu harwain gan God Ymddygiad Aelodau er mwyn atal unrhyw ddylanwadu ar rôl y Cynghorwyr o wneud argymhellion a phenderfyniadau yn y pwyllgorau perthnasol.

5.7.2 Ar adegau allweddol drwy gydol y cyfnod paratoi’r CDLl, cyflwynir adroddiadau i Bwyllgor Craffu Cymunedau ac i’r Cyngor Llawn (yn ôl yr angen).

DRAFT

## 5.8 Ymglymiad swyddogion y Cyngor

5.8.1 Bydd ymgynghori gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor yn allweddol drwy gydol y cyfnod paratoi'r CDLl. Mi fydd yr ymgynghori yma ynghyd a chyfarfodydd grwpiau cyfredol eraill ar lefel swyddogion, e.e. Cyfarfod Gweithredol Trawsadrannol Dwr a Llifogydd, a grwpiau eraill sy'n ymdrin â materion pynciol, e.e. tai, economi, addysg, yr iaith Gymraeg a materion sy'n ymwneud ag ardaloedd penodol i gyflwyno a thrafod materion y CDLl. Rhoddir gwahoddiad hefyd i swyddogion perthnasol i roi tystiolaeth i weithgor y CDLl a thrafod materion perthnasol gydag aelodau'r gweithgor yn ôl yr angen. Ystyrir hefyd creu Grŵp Mewnol o Swyddogion y Cyngor ynghyd ac Is-Grwpiau i ddelio efo materion penodol wrth baratoi'r CDLl i sicrhau fod mewnbwn trawsadrannol i'r broses o lunio CDLl.

## 5.9 Argaeledd Dogfennau ac Adborth

5.9.1 Bydd prif ddogfennau ymgynghori ar gael yn helaeth er mwyn annog a sicrhau cysylltiadau effeithiol ar hyd proses y CDLl. Mi fydd y dogfennau yn cael eu cyhoeddi'n electroneg ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru a thrwy e-bost i'r rhai sydd ar y basdata cysylltiadau. Bydd copïau papur ar gael hefyd yn y mannau canlynol:

- Siopau Gwynedd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau
- Llyfrgelloedd cyhoeddus yng Ngwynedd

Bydd copïau papur ar gael i'w prynu am bris.

5.9.2 Bydd adroddiadau a munudau unrhyw gyfarfod cyhoeddus perthnasol ble adroddir ar faterion yn ymwneud a'r CDLl yn cael eu cyhoeddi'n electroneg ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru)

5.9.3 Rhoddir ystyriaeth lawn i anghenion unigolion anabl er mwyn sicrhau'r mynediad rhwydd i wybodaeth. Os derbynnir cais, bydd ymdrech yn cael ei wneud i ddarparu copïau print mawr a/neu glywedol o ddogfennau.

## 5.10 Defnyddio'r iaith Gymraeg ac ieithoedd eraill

5.10.1 Bydd paratoi'r CDLl, y cysylltu â'r ymgynghori yn cydymffurfio â Pholisi iaith Gymraeg y Cyngor. Bydd pob dogfen gyhoeddus yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

## 5.11 Beth fydd yn ddisgwyliedig gan y cymunedau a'r budd-ddeiliaid allweddol?

5.11.1 Er mwyn sicrhau bod pawb yn chwarae rhan lawn ar hyd proses y CDLl bydd yn bwysig iddynt ystyried y canlynol:

- Eu bod yn ymateb i ohebiaeth o fewn terfyn amser priodol, gan ddilyn unrhyw weithdrefn benodol
- Deall nad all y CDLl ymdrin â phob dim a chodi materion y gall y CDLl ymdrin yn gyfreithlon â hwy
- Ymrwymo i'r broses trwy fod yn bresennol, cyfrannu a helpu i greu consenswS
- Nodi unrhyw fylchau yn yr wybodaeth a ddarparwyd / yn y sylfaen o dystiolaeth
- Adnabod a chyflwyno manylion priodol am safleoedd a gynigir yn amserol
- Dilyn canllawiau a gweithdrefnau perthnasol
- Rhannu/darparu gwybodaeth yn ôl y galw
- Deall bod Adroddiad yr Arolygydd yn rhwymol ac na ellir apelio yn erbyn argymhellion yr Arolygydd
- Darparu manylion cyswllt fel bod y Cyngor yn gallu rhannu gwybodaeth a rhannu ymatebion

## 5.12 Y Gofrestr o Safleoedd Posib

5.12.1 Bydd Cofrestr o Safleoedd Posib yn cael ei chreu'n gynnar yn y broses paratoi'r CDLl. Gwahoddir cynigion ar gyfer safleoedd posib i'w gynnwys yn y Cynllun (e.e. ar gyfer tai, busnes, siopau) ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru ) a drwy gysylltu efo'r unigolion ar y Basdata cysylltiadau. Gall unrhyw un gynnig safle, ond disgwylir i'r cynigion gael eu cefnogi gan dystiolaeth yn dangos bod y safle'n addas i'w ddatblygu ac y gellir ei gyflawni yn ystod cyfnod y cynllun yn unol â chanllawiau sydd wedi ei osod allan yn rhan 3 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Bydd arweiniad yn cael ei roi ynglŷn â'r math o wybodaeth a fydd ei angen ar wefan y Cyngor.


5.12.2 Bydd y Gofrestr ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd (ar y wefan). Wedi ystyried y safleoedd, bydd asesiad yn cael ei gyhoeddi. Bydd y Gofrestr yma'n cyflawni swyddogaeth bwysig wrth adnabod safleoedd i'w dynodi ar gyfer datblygu ac wrth drafod dewisiadau eraill. Mi fydd y cam galw am safleoedd ar agor am o leiaf 6 wythnos.

DRAFT

# Atodiad 1 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

## Atodiad 1 – Proses y Cytundeb Cyflawni

**Diagram 7: Proses y Cytundeb Cyflawni**



# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

**Atodiad 2 - Camau allweddol ym mhroses paratoi’r CDLl a chyfleoedd gyfranogi**

## Cyfnod 1: Y Cytundeb Cyflawni (Rheol 9) Pryd: Medi 2023 – Mawrth 2024

DRAFT

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ôl | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) | AS/ASA/AEI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Drafftio’r Cytundeb Cyflawni (CC)<br><br>Mehefin – Medi 2023 | Paratoi dogfen sy’n ddatganiad cyhoeddus o amserlen paratoi’r CDLl, a sut a phryd y gall rhanddeiliaid a’r gymuned gyfrannu. | Adrannau’r Cyngor<br><br>Aelodau etholedig | Cyswllt uniongyrchol gyda swyddogion unigol<br><br>Gweithgor Polisi Cynllunio.<br><br>Pwyllgor Craffu Cymunedau Cabinet Cyngor Gwynedd | Ystyried y sylwadau a gwneud diwygiadau priodol<br><br>Cyhoeddi cofnodion y Pwyllgor Craffu<br><br>Cyhoeddi Cofnodion y Cabinet | Costau argraffu a chyfieithu | Gwaith mewnol ar ail ystyried y fframwaith a gwybodaeth gwaelodlin AS cyfredol gyfer y CDLl .<br><br>Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i baratoi Arfarniad Integredig o Gynaliadwyedd fydd yn rhoi ystyriaeth i faterion gynaliadwyedd, amgylcheddol, iechyd, llesiant, cydraddoldeb. Bydd yr Iaith |
| Ymgynghori ar y CC drafft (6 wythnos)<br><br>Hydref – Tachwedd 2023) | Rhoi gwybod i randdeiliaid a chymunedau bod y Cyngor yn mynd i baratoi CDLl.<br><br>Cael barn am | Llywodraeth Cymru<br><br>Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff | Llythyr a chopi o’r CC drafft i Lywodraeth Cymru a chyrff ymgynghori penodol<br><br>Llythyr i gyrff ymgynghori cyffredinol a rhanddeiliaid eraill | Ystyried y sylwadau a gwneud diwygiadau priodol<br><br>Cynnwys manylion cyswllt ymatebwyr ar fasdata’r Cyngor am y CDLl i’w defnyddio | Costau argraffu a phostio<br><br>Costau cyfieithu | |

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd



| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ôl | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) | AS/ASA/AEI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gynnwys y CC<br><br>Adnabod y rhanddeiliaid perthnasol | ymgynghori cyffredinol<br><br>Rhanddeiliaid perthnasol eraill (gan gynnwys y cyhoedd) | Cyhoeddi'r ddogfen ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/cdll<br><br>Copïau yn Siop Gwynedd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau a llyfrgelloedd cyhoeddus<br><br>Darparu ffurflen sylwadau a fydd yn cynnwys cwestiynau perthnasol<br><br>Cyfle i gyflwyno sylwadau ar lein | eto<br><br>Adroddiad sy'n crynhoi'r sylwadau ac yn cyflwyno'r CC drafft diwygiedig i'r Gweithgor Polisi Cynllunio Cabinet , Cyngor Llawn er mwyn cael penderfyniad i gymeradwyo'r CC drafft diwygiedig fel dogfen i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru | Meddalwedd Ymgynhori allanol | Gymraeg yn cael ystyriaeth lawn ar wahân. |

DRAFT

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd



| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ôl | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) | AS/ASA/AEI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gyrru'r CC Drafft Diwygiedig i Lywodraeth Cymru<br><br>(Mawrth 2024) | Rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru fod y Cyngor wedi cymeradwyo'r CC drafft diwygiedig<br><br>Gofyn am gytundeb y Llywodraeth Cymru | Llywodraeth Cymru | Llythyr a chopi o'r CC drafft diwygiedig | | Costau argraffu a phostio | |
| Cyhoeddi'r CC terfynol a gytunwyd iddo gan Lywodraeth Cymru<br><br>(Mawrth 2024) | Rhoi gwybod am y CC a gymeradwywyd a lle gellir ei weld | Llywodraeth Cymru<br><br>Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Rhanddeiliaid perthnasol eraill (gan gynnwys y | Swp-lythyru uniongyrchol (llythyr/ e-bost) i'r rhai sydd ar y basdata<br><br>Cyhoeddi'r ddogfen ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/cdll<br><br>Copïau yn Siop Gwynedd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau a llyfrgelloedd cyhoeddus | Llythyr i Aelodau etholedig yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'r CC | Costau argraffu | |

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ôl | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) | AS/ASA/AEI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cyhoedd) | | | | |

DRAFFT

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

## Cyfnod 2 : Cyfranogiad Cyn- Adneuo (Rheoliad 14) Pryd: Mawrth 2024 - Awst 2025

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ôl | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) | AS/ASA/AEI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adolygu a diweddaru sail dystiolaeth.<br><br>Galw am safleoedd posib – ar agor am 6 wythnos o gwannwyn 2024 | Er mwyn deall y cyd-destun, adolygu ac ychwanegu at yr wybodaeth feintiol ac ansoddol, ac adnabod y materion ar amcanion all y CDLl fynd i'r afael a hwy. | Adrannau/ Gwasanaethau'r Cyngor (e.e. Tai, Economi, Addysg)<br><br>Aelodau etholedig<br><br>Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Rhanddeiliaid perthnasol eraill (gan gynnwys tir feddianwyr) | Cyswllt uniongyrchol gyda swyddogion unigol, fforymau sefydledig o swyddogion<br><br>Seminarau/ Gweithdai cyhoeddus/rhithiol<br><br>Gweithgor Polisi Cynllunio<br><br>Cyswllt uniongyrchol gyda chyrff ymgynghori penodol a chyffredinol amrywiol<br><br>Cyhoeddi papurau testun drafft a gwahodd sylwadau<br><br>Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol<br><br>Cyhoeddi methodoleg asesu safleoedd posib<br><br>Cyhoeddi ffurflenni cyflwyno safleoedd posib, rhoi cyhoeddusrwydd i'r cam yma a gwahodd cynigion<br><br>Cyhoeddi cofrestr safleoedd | Cyhoeddi papurau testun ar y wefan a chadw yn y llyfrgell sail dystiolaeth<br><br>Cyswllt uniongyrchol gyda chyrff ymgynghori penodol a chyffredinol amrywiol i roi gwybod am gyhoeddiad y papurau testun.<br><br>Cyhoeddi cynigion safleoedd posib ar wefan y Cyngor | Cynnal seminarau a chyfarfodydd<br><br>Costau argraffu<br><br>Costau comisiynu gwaith gan ymgynghorwyr lle bo'r angen | Datblygu Adroddiad Sgopio'r AC<br><br>(Rhagfyr 2023- Tachwedd 2024 )<br><br>Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)<br><br>Cyhoeddi'r Adroddiad Sgopio AC ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus (cyfnod 6 wythnos) |

DRAFT

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

Tud. 44

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ôl | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) | AS/ASA/AEI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | posib, a gwahodd sylwadau | | | |
| Adolygu a pharatoi gweledigaeth y CDLl<br><br>Nodi prif amcanion y CDLl. | Cytuno ar weledigaeth glir, sydd â pherthnasedd gofodol, o ba fath o le anelir ei weld yn ardal y CDLl<br><br>Cytuno ar brif amcanion y CDLl | Adrannau/ Gwasanaethau'r Cyngor<br><br>Y cyhoedd<br><br>Grŵp Rhanddeiliaid allweddol y CDLl<br><br>Aelodau etholedig<br><br>Fforymau cyfredol sy'n cynrychioli grwpiau allweddol yn y boblogaeth leol<br><br>Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff ymgynghori cyffredinol | Cyswllt uniongyrchol gyda swyddogion unigol, fforymau sefydledig o swyddogion<br><br>Trafodaethau strwythuredig/ gweithgorau<br><br>Seminarau Aelodau etholedig<br><br>Sesiynau rhithiol<br><br>Gweithgor Polisi Cynllunio<br><br>Cabinet | Cyhoeddi cofnodion Cabinet ar wefan y Cyngor<br><br>Cyhoeddi'r weledigaeth a'r amcanion ar wefan y Cyngor | Costau gweinyddol | |

DRAFT

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

DRAFT

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ôl | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) | AS/ASA/AEI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnabod a phrofi opsiynau strategol a strategaeth<br><br>Ebrill 2024 Awst 2025 | Adnabod opsiynau ymarferol a phenderfynu ar eu cryfderau a'u gwendidau | | | Cyhoeddi cofnodion Cabinet<br><br>Cyhoeddi adroddiad cyfranogiad ar wefan y Cyngor | Costau gweinyddol | |
| Cyhoeddi'r Adroddiad Sgopio AC ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus (cyfnod 6 wythnos) | Cael barn gan randdeiliaid am sgôp yr AC/ AAS a'r amcanion | Y Cyhoedd<br><br>Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Adrannau/ Gwasanaethau'r Cyngor | Swp-lythyru uniongyrchol (llythyr/ e-bost) i godi ymwybyddiaeth<br><br>Cyhoeddi'r ddogfen ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/cdll)<br><br>Copïau yn Siop Gwynedd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau a llyfrgelloedd cyhoeddus | Cyhoeddi sylwadau a dderbyniwyd ar wefan y cyhoedd<br><br>Ystyried y sylwadau a gwneud diwygiadau priodol (os yn berthnasol) | Costau argraffu<br><br>Costau gweinyddol<br><br>Costau ymgynghorwr | |
| Paratoi Dogfen drafft Hoff Strategaeth Mawrth 2024 - Awst 2025 | Sefydlu cyfeiriad strategol a fydd yn cyflawni'r weledigaeth. | Adrannau/ Gwasanaethau'r Cyngor (e.e. Tai, Economi, Addysg) | Trafodaethau strwythuredig/ gweithgorau<br><br>Gweithgor Polisi Cynllunio | Cyhoeddi cofnodion Pwyllgorau perthnasol | Costau gweinyddol | |

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ôl | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) | AS/ASA/AEI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cael cytundeb y Cyngor i fynd allan ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus | Cadarnhau gweledigaeth ac amcanion cyffredinol y Cyngor, yr opsiynau gofodol strategol a ystyriwyd, y strategaeth ofodol mae'n ei ddewis, a'r goblygiadau i ddatblygiadau, e.e. y safleoedd strategol.<br><br>Dangos, drwy gymhwyso'r profion cadernid perthnasol, fod y broses dewis strategaeth yn un cadarn.<br><br>Adnabod safleoedd sy'n | Llywodraeth Cymru<br><br>Grŵp Rhanddeiliaid allweddol y CDLl<br><br>Aelodau etholedig | Y Cabinet<br><br>Y Cyngor Llawn | | | |

DRAFFT

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ôl | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) | AS/ASA/AEI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gyson/ deillio o'r strategaeth a ddewiswyd<br><br>Cyhoeddi sail tystiolaeth sydd yn cefnogi'r Hoff Strategaeth<br><br>Gosod allan pa bolisïau fydd yn cael ei chadw o'r Cynllun Cyfredol (os o gwbl) | | | | | |

DRAFFT

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

## Cyfnod 3: Ymgynghoriad cyhoeddus Hoff Strategaeth ac ymateb i'r sylwadau (Rheoliadau 15 & 16) Pryd: Mawrth 2024 - Awst 2025



| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ôl | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) | AS/ASA/AEI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriad cyhoeddus Hoff Strategaeth (6 wythnos)<br><br>Mawrth 2025 i Ebrill 2025 | Rhoi gwybod am Ddogfen Cynigion yr Hoff Strategaeth<br><br>Trafod a gwahodd sylwadau am y dogfennau am gyfnod statudol o 6 wythnos | Llywodraeth Cymru<br><br>Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Y cyhoedd a phawb arall sydd gan ddiddordeb | Swp-lythyru uniongyrchol (llythyrau/ e-byst) i bawb sydd ar y basdata'r CDLl, cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Cyhoeddi'r ddogfen ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/cdll)<br><br>Copïau yn Siop Gwynedd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau a llyfrgelloedd cyhoeddus<br><br>Y ffurflen safonol ar gyfer sylwadau ar gael mewn mannau cyhoeddus penodol. | Cydnabod derbyn sylwadau trwy lythyr/ e-bost<br><br>Cysylltu gyda'r ymatebwyr i roi gwybod iddynt lle ellir cael gwybod am yr ymateb i'r ymgynghoriad | Costau argraffu a chyfieithu<br><br>Costau postio<br><br>Costau paratoi a chynnal arddangosfeydd a chyfarfodydd<br><br>Costau gweinyddu<br><br>Meddalwedd Ymgynhori allanol | Ymgynghori ar Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol/AEI cynigion a dewisiadau amgen ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir |
| Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | Dangos sut y daethpwyd | Fel Uchod | Fel uchod | | Costau argraffu a chyfieithu | |

DRAFT

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd



| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ôl** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** | **AS/ASA/AEI** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| (drafft) AEI | at y dewisiadau a ffafrir o ystyried yr AC/ AAS<br><br>Gwahodd sylwadau am yr AC/AAS AEI | | | | Costau postio | |
| Ystyried y sylwadau a dderbynnir<br><br>(Mai 2025 – Medi 2025) | Rhoi cyfle i'r Cyngor ystyried pob sylw gafodd ei wneud yn briodol<br><br>Adolygu a datblygu'r sail dystiolaeth ymhellach | Adrannau/ Gwasanaethau'r Cyngor<br><br>Grŵp Rhanddeiliaid allweddol y CDLl<br><br>Aelodau etholedig<br><br>Rhanddeiliaid perthnasol | Cyswllt uniongyrchol gyda swyddogion unigol, fforymau sefydledig o swyddogion<br><br>Trafodaethau strwythuredig/ gweithgorau<br><br>Gweithgor Polisi Cynllunio<br><br>Y Cabinet | Gweithgor Polisi Cynllunio<br><br>Y Cabinet<br><br>Cyhoeddi papurau testun wedi eu diweddaru neu rai newydd (lle mae'n briodol) ar y wefan a | Costau argraffu<br><br>Costau paratoi ac argraffu crynodeb gyffredinol o gasgliadau'r ymgynghoriad a chostau postio | |

DRAFFT

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ôl** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** | **AS/ASA/AEI** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chadw yn y llyfrgell sail dystiolaeth yn Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon<br><br>Paratoi Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol ai rhoi ar wefan y Cyngor | | |
| Paratoi CDLl Adnau a dogfennau cysylltiol<br><br>Medi 2025-Awst 2026 | Llunio'r fersiwn cyflawn o'r CDLl a'i gyhoeddi<br><br>Llunio'r Adroddiad Ymgynghori terfynol a'i gyhoeddi | Adrannau/ Gwasanaethau'r Cyngor (e.e. Tai, Economi, Addysg)<br><br>Aelodau etholedig<br><br>Gweithgor Polisi Cynllunio | Cyswllt uniongyrchol gyda swyddogion unigol, fforymau sefydledig o swyddogion<br><br>Trafodaethau strwythuredig/ gweithgorau<br><br>Y Pwyllgor Craffu<br><br>Gweithgor Polisi Cynllunio<br><br>Y Cabinet | Cyhoeddi cofnodion y Pwyllgorau Craffu, a'r Cabinet ar wefan y Cyngor | Costau Gweinyddol | |

DRAFT

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ôl | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) | AS/ASA/AEI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llunio neu ddiweddaru Canllawiau Cynllunio Atodol terfynol a'u cyhoeddi (os yn berthnasol) | | | | | |

DRAFT

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd



## Cyfnod 4: Ymgynghoriad cyhoeddus am y Cynllun Adnau ac ystyried y sylwadau (Rheoliadau 17, 18 & 19) Pryd: Medi 2025- Awst 2026

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ôl | *Adnoddau (ar ben costau staff arferol)* | AS/ASA/AEI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriad cyhoeddus am y CDLl Adnau ( 6 wythnos)<br>Rhagfyr 2025- Ionawr 2026 | Rhoi cyfle i unrhyw un weld y CDLl a chyflwyno sylwadau amdano | Llywodraeth Cymru<br><br>Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol y CDLl<br><br>Y cyhoedd a phawb arall sydd gan ddiddordeb | Swp-lythyru uniongyrchol (llythyrau/ e-byst) i bawb sydd ar y basdata'r CDLl, a'r cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Llythyr a chopi o'r CDLl Adnau a dogfennau perthnasol ynghyd a rhestr o ddogfennau eraill i Lywodraeth Cymru a chyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyhoeddi'r CDLl Adnau a phob dogfen berthnasol, gan gynnwys | Cydnabod derbyn sylwadau trwy lythyr/ e-bost<br><br>Cyhoeddi copi o bob sylw a dderbynnir yn y mannau cyhoeddus perthnasol<br><br>Rhoi manylion am y sylwadau a dderbynnir ar wefan y Cyngor, gan nodi lle gellir gweld copi caled ohonynt. | Costau argraffu a phostio<br><br>Costau hysbysebion<br><br>Costau gweinyddu<br><br>Meddalwedd Ymgynhori allanol | Dogfennau AC / AAS (AEI) yr ymgynghorwyd arnynt ochr yn ochr â'r CDLl Adnau ar gyfer yr un cyfnod |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | crynodeb syml o'r Cynllun Adnau, a gwybodaeth allweddol, gan gynnwys ffurflen safonol ar gyfer sylwadau, ar wefan y Cyngor<br><br>Copïau yn Siop Gwynedd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau a llyfrgelloedd cyhoeddus<br><br>Y ffurflen safonol ar gyfer sylwadau ar gael mewn mannau cyhoeddus penodol.<br><br>Technegau amrywiol i godi ymwybyddiaeth, sicrhau dealltwriaeth ac ennyn trafodaeth (e.e. Sesiynau codi ymwybyddiaeth | | | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | aelodau etholedig, Sesiynau rhithiol, Gwybodaeth ar wefan y cyngor a chyfryngau cymdeithasol) | | | |
| Ystyried y sylwadau a dderbynnir<br><br>Chwefror 2026-Medi 2026 | Rhoi cyfle i'r Cyngor ystyried pob sylw gafodd ei wneud yn briodol<br><br>Adolygu a datblygu'r sail dystiolaeth ymhellach | Adrannau/ Gwasanaethau'r Cyngor (e.e. Tai, Economi, Addysg ) | Cyswllt uniongyrchol gyda swyddogion unigol, fforymau sefydledig o swyddogion<br><br>Trafodaethau strwythuredig/ gweithgorau<br><br>Gweithgor Polisi Cynllunio<br><br>Y cabinet | Cyhoeddi cofnodion Y Cabinet ar wefan y Cyngor<br><br>Cyhoeddi adroddiad ymgynghori Rhoi gwybod i'r ymatebwyr fod adroddiad ymgynghori ar gael i'w gweld.<br><br>Cyhoeddi papurau testun wedi eu diweddaru neu rai newydd (lle mae'n briodol) ar y wefan a chadw yn y llyfrgell sail dystiolaeth yn Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon. | Costau argraffu a phostio<br><br>Costau gweinyddu | |

DRAFT

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

**Cyfnod 5: Cyflwyno'r CDLI i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad (Rheoliad 22) Pryd:** Medi 2026 **(dangosol)**

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ôl** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** | **AS/ASA/ACI** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno'r CDLI a'r gyfres lawn o ddogfennau cysylltiol (gan gynnwys yr Adroddiad AC) i Lywodraeth Cymru<br><br>Cyflwyno'r dogfennau canlynol:<br>Cynllun Adnau • AC AAS AEI, HRA • Cytundeb Cyflawni Cynllun Cynnwys Cymunedau / • Adroddiad ymgynghori • Adroddiad adolygu • Cofrestr o safleoedd ymgeisio • Copi o'r | Rhoi gwybod i'r holl randdeiliaid fod y Cyngor wedi cyflwyno'r CDLI i Lywodraeth Cymru | Yr ymatebwyr i gyd a phob rhanddeiliad arall sydd wedi datgan ei fod am gael gwybod am ddatblygiad y CDLI | Cyhoeddi datganiad ar wefan y Cyngor am gyflwyniad y CDLI ar gyfer Archwiliad.<br><br>Swp-lythyru uniongyrchol (llythyrau/ e-byst) i'r ymatebwyr a'r rhanddeiliaid eraill sydd wedi datgan eu bod am gael gwybod am ddatblygiad y CDLI<br><br>Rhoi copi o'r holl ddogfennau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar wefan y Cyngor ac yn y mannau cyhoeddus | Dim yn berthnasol | Costau argraffu<br><br>Costau gweinyddu | Yr AC/AAS (ACI) adroddiad yn cyflwyno yn dangos sut y gwerthusiad prosesau wedi hysbysu y Cynllun cynnwys. |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| sylwadau a wnaed yn briodol a gafwyd wrth adneuo • Dogfennau ategol/ tystiolaeth | | | perthnasol | | | |

## Cyfnod 6: Yr Archwiliad Cyhoeddus (Rheoliad 23) Pryd: Medi 2026 – Awst 2027 (dangosol)

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ôl** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** | **AS/ASA/AEI** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyhoeddi rhybudd am yr Archwiliad Cyhoeddus (o leiaf 6 wythnos cyn cychwyn yr Archwiliad) | Rhoi gwybod i randdeiliaid bod yr Archwiliad am ddigwydd | Pob un o'r ymatebwyr ac unrhyw un arall sydd wedi datgan diddordeb yn yr Archwiliad/ y broses CDLl | Llythyr/ e-bost i'r ymatebwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn rhoi manylion am yr Archwiliad.<br><br>Cyhoeddi manylion am yr Archwiliad ar wefan y Cyngor. | Mi fydd y Swyddog Rhaglen yn diweddaru'r wefan efo'r holl wybodaeth yn ymwneud a'r archwiliad. | Costau postio<br><br>Costau hysbysebion<br><br>Costau argraffu | |
| Cyfarfod cyn-Archwiliad | I roi cyfle i'r Arolygydd roi gwybod am drefniadau'r | Fel uchod | Fel uchod | Fel uchod | Costau postio<br><br>Costau cynnal y cyfarfod (e.e. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Archwiliad a gofyn am wybodaeth ychwanegol (os oes angen hynny) | | | | cyfieithu ar y pryd, ffioedd, Swyddog Rhaglen) | |
| Archwiliad o'r CDLI | Cael barn annibynnol am gadernid y CDLI a'r sylwadau a dderbyniwyd amdano. | Pob un o'r ymatebwyr sydd heb dynnu ei wrthwynebiad yn ôl. | Sesiynau trafod o gwmpas y bwrdd.<br><br>Gwrandawiadau.<br><br>Gwrandawiadau ffurfiol<br><br>(Yr Arolygydd fu'n penderfynu ar y dull gorau i gyflwyno tystiolaeth lafar)<br><br>Datganiadau ysgrifenedig ffurfiol | Adroddiad yr Arolygydd | Costau cynnal yr Archwiliad (e.e. cyfieithu ar y pryd, ffioedd, Swyddog Rhaglen, gweinyddu'r Archwiliad)<br><br>Costau gweinyddu | |
| Paratoi ag ymgynghori ar Newidiadau Materion sy'n Codi | Gwneud newidiadau angenrheidiol i'r CDLI | Pob un o'r ymatebwyr ac unrhyw un arall sydd wedi datgan diddordeb yn yr Archwiliad/ y broses CDLI | Ymgynghori ar y Newidiadau Materion sy'n Codi yn unol â chanllawiau gan yr Arolygydd. | Penderfyniad yn dilyn yn Adroddiad yr Arolygydd | Costau Postio<br><br>Costau Gweinyddu | Bydd rhaid gwneud asesiadau o'r newidiadau materion sy'n codi ag bydd ar gael fel rhan o ymgynghoriad ar y materion yma. |

DRAFT

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

## Cyfnod 7: Cyhoeddi Adroddiad yr Archwiliad Cyhoeddus (Rheoliad 24) Pryd: Awst 2027 (dagosol)

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ôl | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) | AS/ASA/AEI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Derbyn/ cyhoeddi Adroddiad yr Archwiliad Cyhoeddus | Rhoi gwybod am benderfyniadau Arolygydd yr Archwiliad Cyhoeddus | Aelodau etholedig<br><br>Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol y CDLl<br><br>Pob un o'r ymatebwyr, y cyhoedd a phawb arall sydd gan ddiddordeb | Llythyr/ e-bost i'r ymatebwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn rhoi gwybod am fodolaeth yr Adroddiad a lle gellir ei gweld ac unrhyw fanylion perthnasol eraill.<br><br>Technegau amrywiol i godi ymwybyddiaeth, (e.e. Gwybodaeth ar wefan y cyngor a chyfryngau cymdeithasol)<br><br>Rhoi'r Adroddiad ar gael i'w archwilio ar wefan y Cyngor ac yn y mannau cyhoeddus | Dim yn berthnasol | Costau argraffu<br><br>Costau gweinyddu | Dim yn berthnasol |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | perthnasol. | | | |
| Paratoi ymateb y Cyngor i Adroddiad yr Archwiliad | Codi ymwybyddiaeth am unrhyw newidiadau arwyddocaol fydd angen eu gwneud er mwyn cydymffurfio gydag Adroddiad yr Archwiliad<br><br>(Nodyn: ni fydd gan y Cyngor na'r rhanddeiliaid hawl i wrthwynebu unrhyw newidiadau fydd yr Arolygydd am eu gweld) | Aelodau etholedig | Adroddiad i'r Cabinet yn amlygu unrhyw newidiadau arwyddocaol.<br><br>Adroddiad i'r Cyngor llawn i gael penderfyniad i fabwysiadu'r CDLl | Cyhoeddi cofnodion y Cabinet a'r Cyngor llawn ar wefan y Cyngor. | | |

Tud. 59

DRAFT

## Cyfnod 8 Mabwysiadu'r CDLl (Rheoliad 25) Pryd: Medi / Hydref 2027 (arwyddol)

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ôl | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) | AS/ASA/AEI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mabwysiadu'r CDLl yn ffurfiol fel y cynllun datblygu | Rhoi gwybod i randdeiliaid a'r cyhoedd o'r | Aelodau etholedig<br><br>Pob un o'r | Llythyr/ e-bost i'r ymatebwyr a rhanddeiliaid | Dim yn berthnasol | Costau postio<br><br>Costau argraffu | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| statudol ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd (o fewn 8 wythnos o dderbyn Adroddiad yr Archwiliad) | penderfyniad i fabwysiadu'r CDLl | ymatebwyr ac unrhyw un arall sydd wedi datgan diddordeb yn y broses CDLl<br><br>Y cyhoedd | perthnasol eraill yn rhoi gwybod am fabwysiadau'r CDLl, gan amgáu copi o'r datganiad mabwysiadu.<br><br>Rhoi holl ddogfennau'r CDLl yn cynnwys y datganiad mabwysiadu ar gael ar wefan y Cyngor ac yn y mannau cyhoeddus perthnasol.<br><br>Technegau amrywiol i godi ymwybyddiaeth, (e.e. Gwybodaeth ar wefan y cyngor a chyfryngau cymdeithasol)<br><br>Anfon 4 copi o'r CDLl a'r datganiad mabwysiadu i Llywodraeth Cymru. | | Costau gweinyddu | |

DRAFT

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

DRAFFT

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

## Atodiad 3 – Syniad o Adroddiadau a Phenderfyniadau Cyfnodau Allweddol y Cynllun Datblygu Lleol

| | 1 | | 2 | | 3 | | 4 | | 5 | 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cytundeb Cyflawni** | **Adrodd ar ymatebion i'r ymgynghoriad** | **Dewisiadau Strategol, gweledigaeth ag amcanion** | **Adrodd ar ymatebion i'r ymgynghoriad** | **Strategaeth a Ffefrir** | **Adrodd ar ymatebion i'r ymgynghoriad** | **Cynllun Adnau** | **Adrodd ar ymatebion i'r ymgynghoriad** | **Cyflwyno Ar Gyfer Archwiliad** | **Mabwysiadu'r Cynllun** |
| **Gweithgor Polisi Cynllunio** | **Ystyried cyn gwneud sylwadau i'r Cabinet** | **Ystyried cyn gwneud sylwadau i'r Cabinet** | **Ystyried cyn gwneud sylwadau i'r Cabinet** | **Ystyried cyn gwneud sylwadau i'r Cabinet** | **Ystyried cyn gwneud sylwadau i'r Cabinet** | **Ystyried cyn gwneud sylwadau i'r Cabinet** | **Ystyried cyn gwneud sylwadau i'r Cabinet** | **Ystyried cyn gwneud sylwadau i'r Cabinet** | **Ystyried cyn gwneud sylwadau i'r Cabinet** | |
| **Pwyllgor Craffu** | **Craffu a bwydo sylwadau i'r Cabinet** | | **Craffu a bwydo sylwadau i'r Cabinet** | | **Craffu a bwydo sylwadau i'r Cabinet** | | | | | |
| ***Cabinet*** | ***Cytuno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus*** | ***Derbyn ag argymell i'r Cyngor Llawn*** | ***Cytuno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus*** | ***Cytuno*** | ***Cytuno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus*** | ***Derbyn ag argymell i'r Cyngor Llawn*** | ***Cytuno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus*** | ***Cytuno*** | ***Derbyn ag argymell i'r Cyngor Llawn*** | |
| **Cyngor Llawn** | | **Cytuno (statudol)** | | | | **Cytuno** | | | **Cytuno** | **Mabwysiadu (statudol)** |
| | | | | | | | | | | |

DRAFT

# Atodiad 4 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

## Atodiad 4 – Profion Cadernid

### Gofynion Paratoi:

- A yw'r gwaith o baratoi'r cynllun wedi cydymffurfio â gofynion gweithdrefnol cyfreithiol a rheoleiddiol? (Rheoliadau CDLlau, Cynllun Cynnwys Cymunedau, Rheoliadau AAS, Arfarniad o Gynaliadwyedd, HRA ac ati?)
- A yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC a/neu'r Cynllun Datblygu Strategol? (pan gaiff ei gyhoeddi neu ei fabwysiadu yn y drefn honno)

**Prawf 1: A yw'r cynllun yn addas?** (A yw'n glir bod y CDLl yn gyson â chynlluniau eraill?)

**Cwestiynau**

• A yw'n ystyried polisi cenedlaethol (PCC) a Chynllun Gofodol Cymru (FfDC pan gaiff ei gyhoeddi)?
• A yw'n ystyried y Nodau Llesiant?
• A yw'n ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru?
• A yw'n ystyried y Datganiad Ardal perthnasol?
• A yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC (pan gaiff ei gyhoeddi)?
• A yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Cynllun Datblygu Strategol perthnasol (pan gaiff ei fabwysiadu)?
• A yw'n gyson â chynlluniau rhanbarthol, strategaethau a rhaglenni darparwyr cyfleustodau?
• A yw'n gydnaws â chynlluniau ACLlau cyfagos?
• A yw'n ystyried y Cynllun Llesiant neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol?
• A yw'r ACLl wedi dangos ei fod wedi manteisio ar bob cyfle i gydweithio a chydweithredu ar baratoi cynlluniau a'r sail dystiolaeth?

**Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol?** (A yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)

**Cwestiynau**

• A yw'n benodol i'r ardal leol?
• A yw'n ymdrin â'r materion allweddol?
• A yw'n cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?
• A ellir dangos y rhesymeg wrth wraidd polisïau'r cynllun?
• A yw'n ceisio diwallu'r anghenion a aseswyd a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy?
• A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol?
• A yw'r dewisiadau amgen 'go iawn' wedi cael eu hystyried yn briodol?
• A yw'n rhesymegol, yn rhesymol ac yn gytbwys?
• A yw'n gydlynol ac yn gyson?
• A yw'n glir ac a oes ganddo ffocws?

DRAFT

# Atodiad 4 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

**Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni** (A yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

**Cwestiynau**

- A fydd yn effeithiol?
- A ellir ei weithredu?
- A oes cefnogaeth gan y darparwyr seilwaith perthnasol yn ariannol ac o ran bodloni amserlenni perthnasol?
- A fydd y datblygiad yn hyfyw?
- A ellir cyflawni'r safleoedd a ddyrannwyd?
- A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg? A oes darpariaethau wrth gefn priodol?
- A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol?

DRAFFT

# Atodiad 5 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

## Atodiad 5 - Risgiau posib a dulliau ymateb

| Risg | Effaith bosibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| 1. Gofynion pellach yn deillio o ddeddfwriaeth neu ganllawiau cenedlaethol newydd | • Angen ymgymryd â rhagor o waith er mwyn diwygio'r Cynllun a'r rhaglen waith.<br>• Rhaglen yn llithro. | Monitro gwaith sy'n cael ei wneud o ran deddfwriaethau a chanllawiau newydd fel ein bod mewn sefyllfa dda i ymateb mor gynnar ac effeithiol a phosib i unrhyw newid. |
| 2. Llwyth gwaith trymach na'r disgwyl | • Rhaglen yn llithro.<br>• Methu adrodd i bwyllgorau mewn da bryd. | • Sicrhau amserlen realistig sydd â hyblygrwydd iddo.<br>• Sicrhau ein bod yn ystyried faint o amser a gymerir i wneud pob agwedd o'r gwaith.<br>• Ystyried adnoddau ychwanegol. |
| 3. Gwrthwynebiadau sylweddol gan gyrff ymgynghori | • Rhaglen yn llithro. | • Hyblygrwydd yn yr amserlen.<br>• Sicrhau ein bod yn ymgynghori yn fuan (cyn y cyfnodau ymgynghori ffurfiol) gyda chyrff penodol. |
| 4. Diffyg consensws gwleidyddol | • Methu cytuno ar agweddau allweddol yn y Cynllun.<br>• Gwrthdaro yn tanseilio'r hyn sydd yn cael ei nodi yn y Cynllun. | Ceisio datrys cymaint o wrthdaro a phosib yng nghyfarfodydd y Gweithgor Polisi Cynllunio a drwy drafod gydag Aelodau blaengar e.e. arweinyddion portffolio. |
| 5. Methu adrodd i bwyllgor ar adeg briodol | • Rhaglen yn llithro | • Trafod anghenion y broses gyda threfnwyr rhaglen flynyddol pwyllgorau mewn da bryd |

# Atodiad 5 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

| Risg | Effaith bosibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| 6. Diffyg consensws rhwng gwahanol adrannau o'r Cynghorau | Methu cytuno ar agweddau allweddol yn y Cynllun. | • Sicrhau ein bod yn cyd-fynd a blaenoriaethau'r Cyngor<br>• Sicrhau bod gweithdrefnau cyd-drafod mewnol effeithiol mewn lle o ran y Cynllun. |
| 7. Oedi gyda chyfieithu/proses argraffu | Rhaglen yn llithro. | • Defnyddio cyfieithwyr allanol.<br>• Rhannu'r gwaith cyfieithu i wahanol unigolion/ gwmnïoedd.<br>• Ystyried adnoddau ychwanegol. |
| 8. Diffyg arian ar gael drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun | • Methu ariannu tasgau gwaith penodol a phwysig e.e. fel rhan o'r sail tystiolaeth.<br>• Rhaglen yn llithro. | • Monitro cyson er mwyn sicrhau fod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol posib. |
| 9. Newid/Colli staff | • Colli capasiti a sgiliau.<br>• Mwy o bwysau ar y swyddogion eraill.<br>• Rhaglen yn llithro. | • Ystyried adnoddau ychwanegol. |
| 10. Diffyg arbenigedd | • Safon y gwaith yn is.<br>• Methu adnabod gwendidau a nodi awgrymiadau wrth wirio gwaith gan ymgynghorwyr.<br>• Problemau o ran sicrhau 'cadernid' y Cynllun. | • Hyfforddi staff penodol i arbenigo mewn gwahanol feysydd.<br>• Defnyddio ymgynghorwyr arbenigol lle dydi'r arbenigedd ddim oddi fewn y gwasanaeth |

# Atodiad 5 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

| Risg | Effaith bosibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| 11. PCAC yn methu cwrdd â'r amserlen/targedau | • Oedi o ran cynnal yr ymchwiliad ac/neu o ran derbyn yr adroddiad. | • Sicrhau cyswllt agos gyda'r Arolygaeth Gynllunio er mwyn sicrhau proses mor hawdd â phosib. Bydd hyn hefyd yn fodd o gael rhybudd cynnar ynglŷn ag unrhyw broblemau. |
| 12. Cynllun yn methu y prawf 'cadernid' | • Ni all y Cynllun gael ei fabwysiadu heb orfod ymgymryd â gwaith sylweddol pellach. | Sicrhau bod y CDLl yn gadarn drwy sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda gweithdrefnau, deddfau, rheoliadau, ynghyd â'r holl brofion cadernid penodol. |
| 13. Her gyfreithiol | • Diddymu'r CDLl (neu rannau ohono) a fabwysiadwyd.<br>• Pwysau gwaith ychwanegol. | Sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda gweithdrefnau, deddfau, rheoliadau a.y.b. |
| 14. Etholiadau | • Rhaglen yn llithro.<br>• Aelodau newydd â barn wahanol ynglŷn â chynnwys y Cynllun – blaenoriaethau yn newid. | Sicrhau amserlen realistig sydd â hyblygrwydd iddo. |
| 15. Problemau gyda gwaith T.G. / Problemau o ran gwaith GIS | Rhaglen yn llithro. | • Sicrhau amserlen realistig sydd â hyblygrwydd iddo.<br>• Sicrhau bod Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor yn ymwybodol o'r anghenion ac yn rhaglennu amser ar ein cyfer.<br>• Prynu meddalwedd bwrpasol. |

# Atodiad 5 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

| Risg | Effaith bosibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| 16. Canlyniadau'r AC/AAS yn amlinellu problem(au) annisgwyl. | • Llwyth gwaith ychwanegol.<br>• Rhaglen yn llithro. | • Sicrhau bod yr amserlen yn ddigon hyblyg i allu ymdopi gyda sefyllfa o'r fath.<br>• Ystyried adnoddau ychwanegol. |
| 17. Cyrff ymgynghori'n methu rhoi sylwadau mor gyflym â'r disgwyl. | Rhaglen yn llithro. | • Sicrhau bod grwpiau penodol yn cael eu hymgynghori a hwy yn fuan o fewn unrhyw gam perthnasol yn y broses.<br>• Ceisio ymgynghori ar adegau o'r flwyddyn ble mae'r mwyafrif o bobl yn debygol o fod yn eu gwaith e.e. nid yn ystod mis Awst neu dros y Nadolig. |
| 18. Derbyn gwybodaeth hwyr arwyddocaol. | • Rhaglen yn llithro.<br>• Pwysau gwaith ychwanegol. | Sicrhau bod yr amserlen yn ddigon hyblyg i allu ymdopi gyda sefyllfa o'r fath. |
| 19. Prosiectau isadeiledd mawr annisgwyl yn dod yn ei flaen | • Rhaglen yn llithro.<br>• Pwysau gwaith ychwanegol. | |

# Atodiad 6 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

**Atodiad 6 – Rhestr o Ymgyngoreion**

**<u>CYRFF YMGYNGHORI PENODOL</u>**

Llywodraeth Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cadw
Swyddfa Gartref
Weinyddiaeth Amddiffyn
Network Rail
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Ysgrifennydd Gwladol Trafnidiaeth
Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU
Adran Masnach a Diwydiant Llywodraeth y DU

**<u>Adjoining Local Authorities</u>**

Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ddinbych
Syngor Sir Ynys Môn
Cyngor Sir Powys
Parc Cenedlaethol Eryri

**<u>Pob Cyngor Dinas, Tref a Chymuned sydd o fewn neu yn gyferbyn a ardal ACLI</u>**

**<u>Infrastructure Providers and Electronic Communications</u>**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
British Telecommunications plc
Dŵr Cymru
Mobile UK
National Grid
Scottish Power
SP Energy Networks & Wales and West Utilities

**<u>GENERAL CONSULTATION BODIES – mae rhain wedi cael ei diffinio o fewn rheoliadau CDLl fel;</u>**

i.cyrff gwirfoddol, y mae gweithgareddau'r rhai neu'r cyfan ohonynt yn fuddiol i unrhyw ran o ardal yr ACLl;
ii. cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hiliol, ethnig neu genedlaethol yn ardal yr ACLl;
iii.cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau crefyddol yn ardal yr ACLl;

DRAFT

iv.cyrff sy'n cynrychioli buddiannau personau anabl yn ardal yr ACLl;
v. cyrff sy'n cynrychioli buddiannau personau sy'n rhedeg busnes yn ardal yr ACLl; ac
vi. cyrff sy'n cynrychioli buddiannau'r diwylliant Cymreig yn ardal yr ACLl;

***Mae'r ymgyngoreion cyffredinol a amlinellir isod yn adlewychu'r categoriaiu ucod ond nodir for yn rhestr ddarluniadol ac nid yw'n hollgynhwysfawr***

Age Concern (Cymru)
Barnardo's
Butterfly Conservation Wales
The Conservation Volunteers: TCV
Barmouth Resort Improvement Group
Bangor Creadigol
Bangor Civic Society
Council for the Protection of Rural Wales
Cyfeillion Storiel
Envirowatch UK
Friends of the Earth
Greenpeace
Keep Wales Tidy
Mantell Gwynedd
MATRA (Maesgeirchen & Tanybryn Residents Association)
Mudiad Y Ffermwyr Ifanc
Mudiad Meithrin
National Trust
North Wales Energy Efficiency Advice Centre
North Wales Wildlife Trust
Ramblers Association
RSPB
Sport Wales
Sustrans Wales
North Wales Tourism
Undeb Myfyrwyr Bangor Students Union
Wales Council for Voluntary Action
Wales Pre School Play Groups Assoc
Visit Wales
Wildscapes
Hafal
Shelter Cymru
Youth Hostel Association
BEN (Black Environment Network)
Equality and Human Rights Commission Wales
Friends, Families and Travellers
North Wales Chinese
North Wales Race Equality Network
Equal Opportunities Commission for Wales
The Ethnic Minority Foundation

DRAFT

# Atodiad 6 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

Cymdeithas Afro-Caribiaiadd, Prifysgol Bangor
Cymdeithas Tseiniaidd Prifysgol Bangor
Cymdeithas Myfyrwyr Bangladeshi, Prifysgol Bangor
Cymdeithas Indiaidd, Prifysgol Bangor
Cymdeithas Myfyrwyr Kuwaiti, Prifysgol Cymru
Cymdeithas Japaneaidd, Prifysgol Bangor
Traveller Gypsy Roma Advocacy Cymru
The Traveller Movement
Polish Housing Society Ltd (Cartref Penrhos)
Black Association of Women Step Out (BAWSO)
Diverse Cymru Mental Health and Wellbeing Hub Service
Bangor Diocesan Division for Social Responsibility
British Humanist Association
Cytun
Kalpa Bhadra Kadampa Buddhist Centre
Bangor Islamic Centre
Cynulleidfa Hebraeg Llandudno
Eglwys Bresbyteraidd Cymru - Henaduriaeth Arfon
Coleg y Bala
Bangor Cathedral
Diocese of Bangor
Inter-Cultural Skills Network
Wales Orthodox Mission
Baptist Union of Wales
Congregational Federation Wales
Hindu Council UK/Hindu Cutural Association?
Muslim Council of Wales
Quakers
Representative Body of the Church in Wales
The Catholic Church in England and Wales
The Methodist Church in Wales
The Presbyterian Church of Wales
Buddhist Council for Wales
Sikh Council for Wales
Grwp Mynediad Arfon
Grwp Mynediad Meirionnydd
Cynnal Gofalwyr Gwynedd
Caffi Coed y Brenin
Wales Council for Deaf People
Dolgellau Hard of Hearing and Luncheon Club
Cymdeithas Down's Syndrome Association
Grwp Marchogaeth i'r Anabl Meirionnydd/ Meirionnydd Special Riding Group
Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru / North Wales Society for the Blind - Bangor
Anheddau Cyf - Gwynedd
Hafal Cymru - Gwynedd
Deafblind Cymru
NDCS - National Deaf Children's Society
Agoriad
Alzheimers Society
British Deaf Association
RNID (Formerly Action on Hearing Loss Cymru)

DRAFT

# Atodiad 6 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

Disability Wales
Cwmni Seren Ffestiniog Cyf
Antur Waunfawr
Mencap Cymru
Mind Cymru
Centre of Sign-Sight-Sound
Menter Fachwen
Gwasanaeth MS Gwynedd/Ynys Môn
Cymdeithas Stroke Gogledd Cymru
National Autistic Society (NAS) - Bae Colwyn
North Wales Cancer Care Goup - Caernarfon
RNIB
Shine
Scope Cwmpas Cymru
Sense Cymru
SNAP Cymru
Grŵp Cefnogaeth Epilepsi Cymru
Terrence Higgins Trust
Cyngor Pobl Ddall Cymru / Wales Council of the Blind
Canolfan Felin Fach Cyf (Iechyd Meddwl)
Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru Gwasanaethau Gofal Croessffyrdd
Headway Gwynedd
Marchogaeth I Bobl Anabl Treborth
Caniad
Arthritis Care Wales (rhan o Arthritis Research UK) , Cangen Caernarfon
Young Carers sidekick
Blind Veterans UK
Canolfan Lon Abaty / The Abbey Road Centre
Epilepsi Cymru
Chamber of Trade
Chamber of Commerce
Chartered Institute of Building – North Wales Centre
Farmers Union of Wales
Federation of Small Business
HBF – Home Builders Federation
National Farmers Union
Bangor Chamber of Commerce
Barmouth Chamber of Commerce
Pwllheli Chamber of Commerce
Tywyn Chamber of Commerce
Tywyn Chamber of Tourism & Commerce
Campaign for Real Ale
Welsh Language Board
Cyfeillion Llŷn
Cymdeithas yr Iaith
Hunaniaith
Merched y Wawr
Community Papers
Urdd Gobaith Cymru
Urdd Eryri
Urdd Meirionnydd
Mudiad Meithrin Rhanbarth Arfon
Mudiad Meithrin Rhanbarth Dwyfor

DRAFT

# Atodiad 6 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

Mudiad Meithrin Rhanbarth Meirion
Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor (UMCB)
Dyfodol yr Iaith
Ffermwyr Ifanc
Cymraeg i Blant Gogledd Orllewin
Partneriaeth Ogwen
Dyffryn Nantlle 20:20
Menter Iaith Bangor
Stonewall
Unique Transgender Support Network
Wipe Out Transphobia

**<u>SPECIFIC CONSULTATION BODIES</u>**

**<u>Mudiadau eraill gall fod efo diddoedeb</u>**

Cymdeitahsau tai sydd yn gweithio o fewn ardal yr ACLI
North Wales Fire and Rescue Service
North Wales Police
Coleg Meirion Dwyfor
Coleg Menai

DRAFFT

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 5 Hydref 2023 |
| **TEITL** | Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **PWRPAS** | Diweddaru Aelodau'r Pwyllgor Craffu ar y cynnydd a'r cynlluniau ar gyfer cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae darparu rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer trigolion Gwynedd yn un o'r camau gweithredu sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30 y Cyngor a fabwysiadwyd ym mis Mawrth y llynedd.

1.2 Y nod ydi annog teithio cynaliadwy yn y sir a hwyluso teithio gan ddefnyddio cerbydau trydan i drigolion lleol ac ymwelwyr i'r sir i deithio i bob rhan o Wynedd.

1.3 Mae'r cynllun gwerth £1.3 miliwn yn cael ei ariannu trwy gyfraniad o £400,000 gan y Cyngor a £900,000 gan Lywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at Strategaeth gwefru cerbydau trydan ar gyfer Cymru.

1.4 Mae'r Cyngor yn datblygu rhwydwaith o dros gant o bwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan ar draws Gwynedd. Mae amserlen y bydd y pwyntiau gwefru unigol yn dod yn weithredol yn amrywio, ac mae map yn dangos lle mae bwriad cyflwyno'r peiriannau gwefru yn y sir i'w weld yn Atodiad A.

## 2. Y CYD-DESTUN PRESENNOL

2.1 Mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi nodi na fydd modd gwerthu cerbydau petrol a disel newydd yn y dyfodol, gyda 2035 wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar fel y dyddiad terfyn.

2.2 Does dim dwywaith fod y newid pellgyrhaeddol yma yn amlygu'r angen i symud at ddatgarboneiddio'r maes trafnidiaeth dros y blynyddoedd nesaf.

2.3 Mae sicrhau fod darpariaeth addas o fannau gwefru fydd yn cyfarch anghenion trigolion Gwynedd a phobl sy'n ymweld ein cymunedau yn allweddol er mwyn gwireddu hyn. Ond mae'n bwysig nodi fod y newid yn un sylweddol na welwyd ei debyg ers cenedlaethau yn y maes trafnidiaeth.


2.4 Ar hyn o bryd, mae bwlch yn y ddarpariaeth breifat o ran mannau gwefru cerbydau yng Ngwynedd, ac mae hynny'n adlewyrchu'r sefyllfa mewn nifer o ardaloedd gwledig ledled y wlad.

2.5 Mae'r gwaith o ddarparu mannau gwefru ar safleoedd y Cyngor yn ymgais i lenwi'r bwlch, a sicrhau fod yna ddarpariaeth addas ar gyfer pobl Gwynedd a'r rheini sy'n teithio trwy'r sir neu'n ymweld am gyfnod.

2.6 Mae ffigyrau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y DVLA yn nodi fod yna 2,956 o gerbydau allyriadau isel wedi eu cofrestru yng Ngwynedd ym Mawrth 2023, sy'n golygu fod 4% o gerbydau yn y sir yn rhai allyriadau isel. Mae hyn yn dangos cynnydd o dros 80% o'i gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol.


2.7 Mae yna gynnydd sylweddol o ran y nifer o geir trydan ar draws y Deyrnas Gyfunol, ac yn arbennig felly dros y ddwy flynedd diwethaf fel y gweler o ffigyrau cymdeithas gwneuthurwyr a masnachwyr cerbydau'r SMMT (Society of Motor Manufacturers and Traders) yn Ffigwr 1.

**Ffigwr 1:** Nifer o geir trydan (BEV) ar ffyrdd yn y Deyrnas Gyfunol (Gorffennaf 2023)




2.8 Wrth ystyried y defnydd o gerbydau trydan a hybrid, fe welir erbyn hyn fod y cerbydau yma yn cyfrif am bron i chwarter o gerbydau newydd sy'n cael eu cofrestru yn y Deyrnas Gyfunol, sy'n gynnydd aruthrol dros y pum mlynedd diwethaf.

**Ffigwr 2:** Canran o geir newydd sydd yn drydan (BEV) a cheir hybrid (PHEV - plug in) sydd wedi eu cofrestru yn y Deyrnas Gyfunol.



2.9 Mae yna dair prif agwedd i gyflwyno peiriannau gwefru: sef gwefru gartref, gwefru ar y ffordd neu wefru mewn cyrchfannau neu weithle.

2.10 Yn ôl arolwg diweddar, gall 93% o yrwyr cerbydau trydan presennol wefru eu car gartref dros nos. Wrth gwrs, mae'n llawer mwy hwylus i breswylydd sydd â llecyn priodol oddi ar y stryd i wefru eu cerbyd, ond bydd angen mabwysiadu strategaeth gynhwysfawr i sicrhau bod preswylydd heb le parcio yn medru gwefru dros nos.

2.11 Wrth ymgymryd â thaith hir y tu hwnt i'r sir, mae'n bosib y bydd angen gwefru'r cerbyd trydan yn ystod y daith. I fynd i'r afael â'r angen hwnnw, mae'r Cyngor wedi cydweithio â Thrafnidiaeth Cymru i ddatblygu rhaglen waith i gyflwyno cyfres o beiriannau gwefru chwim (rapid), gyda phŵer o 50KW, mewn sawl lleoliad ledled y sir.

2.12 Tra bod ymwelwyr neu breswylwyr yn ymweld â chyrchfan neu'n mynd i'r gweithle, mae'n bosibl defnyddio'r amser pan fydd y cerbyd yn segur i ailwefru. I'r perwyl yma, mae'r Cyngor wedi adnabod sawl lleoliad ar draws y sir lle mae'n bosibl cyflwyno darpariaeth mewn ardaloedd lle rhagwelir y bydd galw am y gwasanaeth hwnnw.

## 3. Y CYNNYDD HYD YMA

3.1 Fe wnaeth y Cyngor gynnal ymarferiad ymgysylltu er mwyn derbyn sylwadau gan drigolion am leoliadau y byddent am weld pwyntiau gwefru yn cael eu cyflwyno at ddefnydd cyhoeddus.

3.2 Yn ogystal, bu'r Cyngor yn cydweithio gyda Scottish Power i adnabod y mannau y byddai modd gosod pwyntiau gwefru dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi cynorthwyo gyda'r gwaith o benderfynu ar rwydwaith o bwyntiau gwefru gan ystyried lle mae'r galw a'r angen amdanynt yn uwch.

3.3 Y bwriad ydi cyflwyno dros 100 o beiriannau gwefru mewn meysydd parcio cyhoeddus neu ar dir y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Mae cyfanswm o 25 safle wedi eu hadnabod ar y rhaglen sy'n cynnwys safleoedd lle mae Cyngor wedi bod yn gweithio yn agos gyda Thrafnidiaeth Cymru i gyflwyno'r gwasanaeth.

3.4 Mae amrywiaeth o fathau pwyntiau gwefru yn cael eu darparu i gyfarch anghenion amrywiol defnyddwyr cerbydau trydan – 7kW (3.5awr*), 50kW (40 munud*), 150kW (15 munud*). **Amcan amser gwefru i deithio 100 milltir.*

3.5 Mae'r Cyngor yn defnyddio arbenigedd ein gwasanaeth goleuo stryd i osod y peiriannau ond yn ddibynnol ar ddarparwyr arbenigol i sicrhau fod y pwyntiau gwefru yn cael eu cysylltu ac yn barod i'r cyhoedd eu defnyddio. Mae peth oedi wedi bod mewn rhai lleoliadau i gysylltu'r peiriannau gyda'r cyflenwad a derbyn tystysgrif berthnasol i gadarnhau fod modd i'r peiriant gael eu defnyddio gan y cyhoedd.

3.7 Mae gwaith yn bwrw ymlaen i ddarparu'r rhwydwaith o bwyntiau gwefru ac mae swyddogion yn trafod gyda darparwyr i geisio sicrhau fod y peiriannau yn weithredol mor fuan ag sy'n bosib. Gan fod y sefyllfa yn amrywio mewn safleoedd gwahanol, mae'r amserlen i'r peiriannau fod yn weithredol yn wahanol.

3.8 Cyn i beiriant gwefru ddod yn weithredol, mae angen cynnal gwaith i osod cyflenwad a mesurydd trydan, sicrhau tystysgrif drydanol a chwblhau gwaith comisiynu angenrheidiol. Mae gwaith yn parhau gyda'r cyflenwyr i sicrhau fod yr holl safleoedd yn weithredol mor fuan â phosib gydag amlinelliad o'r amserlen ddiweddaraf ar gyfer pob lleoliad i'w weld yn Atodiad 2.

3.9 Ar hyn o bryd, mae 16 o bwyntiau gwefru cyhoeddus (7kW) yn weithredol gan y Cyngor mewn 4 lleoliad gweithle neu gyrchfan (Dolgellau, Y Bala, Pwllheli ac Intec Bangor), gyda bwriad fod 6 safle arall yn dod yn fyw yn ystod yr hydref.

3.9 Yn ogystal, mae 7 peiriant (50kW) wedi eu gosod ar 4 o safleoedd eraill y Cyngor (Y Bala, Dolgellau, Blaenau Ffestiniog a Porthmadog) mewn cydweithrediad gyda Thrafnidiaeth Cymru. Mae'r peiriannau yma galluogi defnyddwyr cerbydau trydan i wefru yn ystod taith.

3.10 Felly, o'r 25 safle sydd ar y rhaglen i osod pwyntiau gwefru, mae peiriannau wedi eu gosod mewn 16 ohonynt hyd yma, gyda phwyntiau gwefru yn weithredol mewn 8 o'r safleoedd.

## 4. YMATEB CYCHWYNNOL

4.1 Er ei bod yn ddyddiau cynnar o ran y defnydd o'r peiriannau gwefru, mae ymdrech i sicrhau adborth defnyddwyr er mwyn gallu monitro ac ystyried unrhyw anghenion i wella i'r dyfodol.

4.2 Mae'r ymateb hyd yma i'r pwyntiau gwefru 50kW sydd wedi eu gosod ar y cyd gyda Thrafnidiaeth Cymru yn gadarnhaol gyda phob un ohonynt yn dangos adborth o 4.5 allan o 5.

4.3 Dros yr haf, mae defnydd cadarnhaol wedi bod o'r peiriannau chwim, gyda ffigyrau yn dangos 1,311 defnydd o'r peiriannau gan 111 defnyddiwr gwahanol rhwng 26 Gorffennaf a 25 Awst. Roedd hyn yn cyfateb i 18.3 tunnell o arbediad carbon.

4.4 Nid oes cymaint o adborth penodol hyd yma ar y pwyntiau gwefru 7kW a ddaeth yn weithredol yn ystod gwyliau'r haf. Ond mae rhai sylwadau yn nodi fod diffyg cyfleuster i dalu gyda cherdyn gan fod y ddarpariaeth trwy ddefnydd ap ffôn clyfar yn unig ar hyn o bryd.

4.5 Mae hyn yn fater mae'r Cyngor yn ei drafod gyda'r cwmni sydd wedi gosod y pwyntiau gwefru er mwyn hwyluso'r profiad i'r defnyddwyr. Ar hyn o bryd, dim ond trwy ddefnyddio ap ffôn clyfar y mae modd defnyddio a thalu am y gwasanaeth ac mae swyddogion yn awyddus i ehangu'r gallu i ddefnyddwyr allu dalu trwy ddefnyddio cerdyn banc yn ogystal.

4.6 Mae tudalen bwrpasol www.gwynedd.llyw.cymru/gwefru ar wefan y Cyngor sy'n amlinellu'r pwyntiau gwefru a bydd gwaith yn digwydd i ddiweddaru'r wybodaeth a hyrwyddo'r cyfleusterau wrth i fwy o bwyntiau gwefru ddod yn weithredol.

**5. Y CAMAU NESAF**

5.1 Bydd gwaith yn parhau gyda'r rhaglen bresennol i gyflwyno rhagor o beiriannau gwefru mewn lleoliadau ar draws y sir dros y misoedd nesaf fel yr amlinellir ar y rhaglen yn Atodiad 2.

5.2 Byddwn hefyd yn cychwyn edrych ar y strategaeth ar gyfer gwefru gartref gan adnabod beth yw'r prif rwystrau i drigolion Wynedd gwefru eu ceir o gartref, ac yn cydweithio gyda chymunedau i adnabod yr angen am wasanaeth gwefru o fewn eu cymunedau.

5.3 Wrth gwrs, y tu hwnt i ddarpariaeth gwefru mae'r Cyngor yn ei gynnig, mae yna opsiynau gan ddarparwyr eraill, gan gynnwys y sector breifat.

5.4 Fel sydd wedi ei nodi, ar hyn o bryd, mae'r pwyntiau gwefru sydd yn cael ei gynnig gan y sector breifat heb gydweithrediad y sector gyhoeddus yn araf i ddatblygu.

5.5 Rydym yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar ddatblygu rhwydwaith mannau gwefru ar diroedd y Cyngor. Ond, byddwn yn monitro unrhyw ddatblygiadau gan fusnesau preifat i ystyried yr angen i gynnig rhagor o bwyntiau gwefru, ac os oes potensial i gydweithio gyda'r sector breifat ac unrhyw bartneriaid posib eraill yn y dyfodol.

5.6 Fel rhan o'r gwaith o osod y rhwydwaith pwyntiau gwefru mewn meysydd parcio cyhoeddus, bydd swyddogion hefyd yn ystyried trefniadau talu am y gwasanaeth gan geisio sicrhau fod defnyddio'r peiriannau'r Cyngor mor hwylus â phosib i'r defnyddwyr.


5.7 Rydym hefyd yn gweithio yn agos gyda Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor i adnabod y gallu i gyflwyno peiriannau gwefru ar gyfer staff Cyngor Gwynedd gyda lleoliadau yn Ffordd y Cob, Pwllheli; Penarlâg, Dolgellau a Phencadlys, Caernarfon dan ystyriaeth.

**6. CLOI**

6.1 Cyflwynir yr adroddiad fel diweddariad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, am y gwaith sydd wedi ei gyflawni hyd yma wrth ddatblygu rhwydwaith peiriannau gwefru, a'r hyn sydd ar y gweill dros y cyfnod nesaf.

**Atodiad A**

# Rhwydwaith Gwefru Gwynedd
# Gwynedd's Electric Charging Network




- 150KW Charging Point (15min*) / Pwyntiau Gwefru 150kW (15mun*)
- Bwyntiau Gwefru 50kW (40mun*) / 50KW Charging Point (40min*)
- Bwyntiau Gwefru 7kW (4 awr*) / 7KW Charging Point (4 awr*)

* Amcan amser gwefru i drafaelio 100milltr/ Estimated charging time to travel 100miles

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**Atodiad B** – Lleoliadau gwefru Gwynedd

| Safle | Ardal | Amcan amser i roi'r peiriant ymlaen | Nifer o Bwyntiau Gwefru **7kW** (3.5 awr*) | Nifer o Bwyntiau Gwefru **50kW** (40munud*) | Nifer o Bwyntiau Gwefru **150kW** (15munud*) | Gweithred | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Gosod y Peiriant | Cyflenwad Trydan | Mesurydd trydan | Tystysgrif trydanol | Comisiynu'r peiriant |
| Intec, Parc Menai | Bangor | Gweithredol (App yn unig) | 4 | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Maes Parcio Ger-y-Llyn | Llanberis | *I'w gadarnhau* | 4 | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Canolfan Hamdden Arfon | Caernarfon | Hydref 2023 | 2 | 1 | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ |
| Maes Parcio Safle Shell | Caernarfon | Hydref 2023 | 8 | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Canolfan Hamdden, Dwyfor | Pwllheli | Gweithredol (App yn unig) | 4 | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Maes Parcio Penmount | Pwllheli | Hydref 2023 | 4 | | | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Canolfan Hamdden Penllyn | Bala | Gweithredol (App yn unig) | 4 | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Canolfan Hamdden Glan Wnion | Dolgellau | Gweithredol (App yn unig) | 4 | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Canolfan Hamdden, Bro Dysynni | Tywyn | Hydref 2023 | 4 | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ |
| Maes Parcio Y Marian | Dolgellau | Gweithredol (50kW)<br>Hydref 2023(7kW) | 4 | 2 | | ✓<br>✓ | ✓<br>✗ | ✓<br>✗ | ✓<br>✗ | ✓<br>✗ |
| Prif Maes Parcio, Aberdyfi | Aberdyfi | *I'w gadarnhau* | 4 | 1 | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Bron-y-Graig Uchaf | Harlech | Hydref 2023 | 4 | | | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Maes Parcio Diffwys | Blaenau Ffestiniog | Gweithredol (50kW)<br>Rhagfyr 2023 (7kW) | 4 | 2 | | ✓<br>✓ | ✓<br>✗ | ✓<br>✗ | ✓<br>✗ | ✓<br>✗ |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwll Nofio Bangor | Bangor | Rhagfyr 2023 | 2 | 1 | | ✗ | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ |
| Canolfan Hamdden Plas Ffrancon | Bethesda | Chwefror 2024 | 2 | 1 | | ✗ | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ |
| Maes Parcio Sgwâr Kyffin | Bangor | Rhagfyr 2023 | 4 | 1 | | ✗ | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Maes Parcio, Pant Dreiniog | Bethesda | *I'w gadarnhau* | 2 | 1 | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Maes Parcio Dolbadarn | Llanberis | *I'w gadarnhau* | 6 | 2 | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Maes Parcio Ffordd Balaclafa | Caernarfon | Rhagfyr 2023 | | 2 | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Canolfan Hamdden Glaslyn | Porthmadog | Gweithredol | | 2 | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Maes Parcio Llyn Bach | Porthmadog | *I'w gadarnhau* | 4 | 1 | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Maes Parcio Ffordd Caerdydd | Pwllheli | Mawrth 2024 | | | 2 | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Prif Maes Parcio, Abermaw | Abermaw | Hydref 2023 | 8 | 2 | | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ |
| Canolfan Hamdden Plas Silyn | Penygroes | Chwefror 2024 | 2 | 1 | | ✗ | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ |
| Maes Parcio Y Grîn | Bala | Gweithredol | | 1 | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Amcan amser gwefru i deithio 100 milltir*

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad** | 5 Hydref, 2023 |
| **Teitl** | Toiledau Cyhoeddus |
| **Aelod Cabinet** | Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones |
| **Swyddogion Cyswllt** | Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC<br>Amanda Murray, Rheolwyr Asedau Bwrdeistrefol |
| **Pwrpas** | Cyflwyno diweddariad ar y Gwasanaeth Toiledau Cyhoeddus ac i dderbyn sylwadau ac adborth ar y cynnwys. |

**1. Cefndir**

1.1 Ers yr argyfwng Covid, mae cynnydd sylweddol wedi ei weld yn ddefnydd toiledau cyhoeddus y Sir. Mae rhan helaeth o'n safleoedd yn rhan o hen stoc fwrdeistrefol sydd heb eu dylunio i ymdopi â'r nifer uchel o ddefnyddwyr, anghenion cydraddoldeb ynghyd â disgwyliadau o ased modern.

1.2 Cynigir dewisiadau o fewn yr adroddiad yma er mwyn mynd i afael a'r pryderon sydd wedi codi ynghyd a rhoi sylw i her ariannol sydd yn wynebu'r Gwasanaeth wrth eu cyflwyno.

1.3 Cytunodd Llywodraeth Cymru i fabwysiadu Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn ôl yn 2017. Nod cyffredinol y ddeddfwriaeth yma oedd sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion eu cymunedau o ran darpariaeth toiledau cyhoeddus.

1.4 Yn unol â'r cyfrifoldebau yma, lluniwyd Strategaeth 'Toiledau Lleol Gwynedd' ym mis Mai 2019 (Gweler Atodiad 1). Mae'n amserol i adolygu'r Strategaeth bresennol gan asesu ei addasrwydd a pherthnasedd i anghenion y Cyngor ac anghenion ein Cymunedau erbyn heddiw.

1.5 Mae dros 4 mlynedd ers i'r strategaeth Toiledau Cyhoeddus presennol gael ei fabwysiadu. Y prif newidiadau ers cyhoeddi'r strategaeth yw ein Cynllun Partneriaethau Cynghorau Cymuned a Thref, cynllun drysau talu, cynnydd mewn costau cynnal a chadw a'r gofynion newydd yn narpariaeth ein cyfleusterau.

1.6 Bydd angen cyflwyno adroddiad cynnydd interim ynglŷn ag addewidion y Strategaeth ger bron y Cabinet cyn Tachwedd 2024. Bydd y dewisiadau sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r adroddiad yma yn elfen bwysig o'r Strategaeth i'r dyfodol.

1.7 Yn ôl yn 2017, yn dilyn ymarferiad Her Gwynedd, ac i gyflawni toriad o £244,000 yn y Gwasanaeth, gwireddwyd Cynllun Partneriaethu Cynghorau Cymuned a Thref er mwyn cadw'r mwyafrif o doiledau cyhoeddus y Sir yn agored.

1.8 Mae gan y Cyngor 61 toiled cyhoeddus yng Ngwynedd sydd, o ran niferoedd, y ddarpariaeth uchaf yng Nghymru sy'n cael ei reoli gan Awdurdod Lleol. Gwelir Atodiad 2 ar gyfer rhestr o'r holl doiledau cyhoeddus, eu lleoliadau, os yw'n doiled sydd ar agor drwy'r flwyddyn neu yn dymhorol ac os oes darpariaeth codi ffi am fynediad.

1.9 Ers sefydlu'r Cynllun Partneriaethau, sefydlwyd cytundebau gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref er adlewyrchu eu hymrwymiad i'r Cynllun, ond hefyd gytundeb i'w cyfraniad at y gost o gyflwyno'r ddarpariaeth. Sut bynnag, ar yr adeg, nid oedd cyfeiriad i gynnwys chwyddiant o fewn y ffi flynyddol wedi ei adlewyrchu yn y cytundeb. Bwriad y Gwasanaeth o hyn allan yw cyflwyno chwyddiant i'r ffi flynyddol.

2.0 Yn ôl yn 2010, cyflwynwyd trefn drysau talu o fewn 5 toiled cyhoeddus yng Ngwynedd. Y ffi gyfredol ar gyfer mynediad i'r toiledau yw 20 ceiniog a rhestrir isod y toiledau sydd â'r ddarpariaeth drysau talu:

- Caernarfon x2
- Dolgellau
- Porthmadog
- Pwllheli

2.1 Mae Atodiad 3 yn amlygu costau rhedeg y drysau talu, incwm o'r drysau, eu targed incwm a'i gwir incwm.

2.2 Mae nifer o broblemau ynghlwm â'r drysau yma, sef:

- Mae'r peiriannau eu hunain wedi cyrraedd diwedd eu hoes, ac nid oes modd archebu darnau i'w trwsio
- Mae'r gwasanaeth yn wynebu achosion o fandaliaeth reolaidd sydd yn amharu ar weithdrefn y drysau talu
- Mae'r gost o gasglu'r arian parod yn uchel ac nid oes modd talu'r ffi mewn unrhyw ffordd arall o fewn y gyfundrefn bresennol.

2.3 Yn unol, mae'r Gwasanaeth yn edrych ar yr opsiynau canlynol:

| Opsiwn | Disgrifiad |
|---|---|
| 1 | Diddymu'r ddarpariaeth codi ffioedd yn gyfan gwbl o'r 5 tolied cyfredol a amlygir. |
| 2 | Parhau gyda'r drysau talu o fewn y 5 toiled cyhoeddus cyfredol gan amnewid y drysau talu i dechnoleg o beiriannau sy'n derbyn taliadau di gyffwrdd ac arian parod. |
| 3 | Ehangu ar y ddarpariaeth o ddrysau talu ffi mynediad. |

2.4 Gwella delwedd yr ased a chyfarch disgwyliadau defnyddwyr – Mae'n bwysig nodi bod ein cyfleusterau cyhoeddus yn cyfrannu tuag at nod llesiant y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sef 'Cymru o gymunedau cydlynus' sy'n canolbwyntio ar greu cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel.

2.5 Mae cyflwr ein toiledau cyhoeddus, yr is-strwythur a seilwaith cyrchfannau twristiaeth arfordirol wedi'i gofnodi fel prif flaenoriaeth strategol a buddsoddiad sirol yn yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan yr Awdurdod yn 2021/22 gydag arweinwyr cymunedol a busnes yn llunio blaenoriaethau strategaeth ymwelwyr cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 a Chynllun Adfywio 2035 Cyngor Gwynedd.

2.6 Mae'r Gwasanaeth wedi manteisio ar gyfleoedd grantiau blaenorol e.e. (eleni roeddem yn llwyddiannus yn derbyn £135,860 drwy'r gronfa 'Pethau Pwysig' er mwyn uwchraddio 4 toiled yng Ngwynedd).

2.7 Serch hyn, wrth edrych ar gyfarch disgwyliadau'r cyhoedd a gwella delwedd stoc o 61 toiled, bydd y Gwasanaeth yn cyflwyno bid am arian i gyfarch a gwella ansawdd y stoc o doiledau cyhoeddus.

2.8 Pe bydd y bid yn llwyddiannus, yr ydym yn ffyddiog y byddem yn gallu cyflwyno newidiadau i'r asedau i sicrhau ein bod yn cyrraedd disgwyliadau defnyddwyr.

Gwelir y math o welliannau y byddem yn awyddus eu cyflwyno:

- Darparu biniau glanweithiol yn nhoiledau merched a dynion yn unol â gofynion cydraddoldeb
- Mewnosod goleuadau ynni-effeithlon LED newydd
- Gwell darpariaeth o gyfleusterau golchi a sychu
- Darparu sestonau a seti toiled newydd
- Codi safon fewnol y safle drwy gyflwyno teils llawr gwrthlithro
- Gosod paneli solar

2.9 O dderbyn adborth Aelodau'r Pwyllgor Craffu, bydd y Gwasanaeth yn mynd ati i ddatblygu cynllun gweithredu, gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r Cabinet yn y flwyddyn newydd.

# Cyngor Gwynedd

# Strategaeth Toiledau Lleol

## Mai 2019



## 1. Cefndir

Cytunodd Llywodraeth Cymru i fabwysiadu Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ym Mai 2017. Daw'r Ddeddf ag ystod o gamau gweithredu ymarferol ynghyd ar gyfer gwella a diogelu iechyd. Mae Rhan 8 y Ddeddf yn cyflwyno gwaith darparu toiledau, a strategaethau toiledau lleol yn benodol. O safbwynt cyfleusterau cyhoeddus, nod cyffredinol y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion eu cymunedau o ran toiledau ac yna'n defnyddio dull strategol a thryloyw i ddiwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posib.

Nid bwriad Rhan 8 y Ddeddf yw atal awdurdodau lleol rhag gwneud penderfyniadau y mae angen iddynt eu gwneud yn ystod eu gweithgarwch, a allai gynnwys penderfyniadau i gau rhai cyfleusterau toiledau cyhoeddus traddodiadol neu adeilad pan fo hynny’n briodol. Yn hytrach, ei bwriad yw gwella’r modd y caiff darpariaeth ei chynllunio er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau o’r fath yn cael eu gwneud yng nghyd-destun cyffredinol y gwaith o ddiwallu’r anghenion y mae awdurdodau lleol wedi’u hadnabod mewn cymunedau. Bydd dull strategol hefyd o gymorth i liniaru unrhyw effeithiau negyddol newidiadau i'r ddarpariaeth.

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru gyfrifoldeb i:

- Asesu'r angen am ddarpariaeth toiledau yn eu cymunedau;
- Cynllunio i ddiwallu'r anghenion hynny;
- Llunio strategaeth toiledau lleol; a
- Adolygu’r strategaeth, diweddaru a chyhoeddi unrhyw ddiwygiadau.

Bydd Cyngor Gwynedd felly yn unol â'r argymhellion hyn yn mynd ati i fynd i'r afael gydag anghenion y gymuned ac i wella safonau cyfleusterau cyhoeddus sydd dan reolaeth yr awdurdod lleol.

## 2. Cyflwyniad

Ein nod yn y strategaeth hon yw sicrhau ein bod yn parhau i gwrdd ag anghenion pobl Gwynedd er gwaethaf y ffaith fod adnoddau'r Cyngor yn prinhau. Y pwyslais yn y strategaeth hon fydd sicrhau fod gan Wynedd ddarpariaeth ddigonol i'r dyfodol a'n bod yn gallu gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid i ddarparu modelau darparu amgen er mwyn llwyddo i gyflawni hyn.

Mae'r strategaeth hefyd yn cael ei pharatoi mewn cyfnod o gyni ariannol ac felly mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r cyd-destun hwnnw. Mae darpariaeth cyfleusterau cyhoeddus yn darparu'r seilwaith sydd ei angen i hwyluso mwynhad o ardaloedd yng Ngwynedd gan drigolion ac ymwelwyr. Gallant fod ag effaith sylweddol ar gyfforddusrwydd unigolion a theuluoedd sy'n ymweld â mannau cyhoeddus yn yr ardal a'u canfyddiad o Wynedd fel lle dymunol i ddod i ymweld.

Mae mynediad i gyfleusterau toiled yn bwysig i bob rhan o'r boblogaeth ac nid dim ond i bobl hŷn. Yn aml, bydd diffyg toiledau cyhoeddus yn cael ei roi fel rheswm pam fod pobl hŷn yn mynd yn ynysig yn gymdeithasol a gall hyn wedyn achosi unigrwydd. Er hynny, mae llawer o bobl (yn cynnwys pobl iau, teuluoedd a phobl o bob oedran gydag anabledd neu gyflwr iechyd) angen mynediad i gyfleusterau toiled ac yn aml gall diffyg darpariaeth arwain atynt yn cyfyngu ar eu cyswllt cymdeithasol gydag eraill.

Er bod Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn canolbwyntio ar 'Ddarpariaeth Toiledau', nid yw darpariaeth cyfleusterau cyhoeddus gan awdurdod lleol ar hyn o bryd yn ddyletswydd statudol.

Yn gynyddol mae'r Cyngor yn wynebu heriau i gynnal safonau cynnal a chadw darpariaeth toiledau a glanhau oherwydd yr arian cyfyngedig a'r pwysau ar adnoddau ond serch hynny, Gwynedd yw'r ail uchaf o ran nifer y toiledau gaiff eu cynnal gan gynghorau yng Nghymru.

## 3. Amcanion y strategaeth hon

Nod y strategaeth yw cwrdd ag anghenion trigolion ac ymwelwyr â Gwynedd drwy ddarparu:-

- Darpariaeth o gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn briodol;
- Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall;
- Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill;
- Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol;
- Asesu argaeledd a dosbarthiad cyfleusterau yn seiliedig ar alw;
- Darpariaeth addas o fewn y gyllideb sydd ar gael.

## 4. Sut y cafodd y strategaeth ei datblygu?

Mae'r strategaeth yn ymgorffori'r adborth a gafwyd o ymarfer ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2018. Lluniwyd yr ymgynghoriad i asesu anghenion y trigolion a'r bobl hynny sy'n ymweld neu'n gweithio yng Ngwynedd. Defnyddiwyd yr atebion a gafwyd i gyfarwyddo cynnwys y strategaeth ddrafft.

Mae'r strategaeth hefyd yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau a gwasanaethau eraill y Cyngor gan gyfrannu at ein gwledigaeth fel Cyngor i gefnogi pobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywydau llawn yn eu cymunedau, mewn sir sydd yn un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth lawn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nod y Ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gwneud i awdurdodau lleol feddwl mwy am yr hirdymor, cydweithio'n well â phobl a chymunedau ac â'i gilydd, ceisio atal problemau, a gweithredu mewn modd mwy cydgysylltiedig. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod 'egwyddor datblygiad cynaliadwy' sy'n rhoi gwybod i sefydliadau sut i fynd o'i chwmpas hi i gwrdd â'u dyletswydd o dan y Ddeddf, sy'n golygu bod yn rhaid i Gyngor Gwynedd weithredu mewn modd mwy cynaliadwy.

Mae'r Strategaeth Toiledau Lleol yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd eu dilyn i sicrhau ein bod yn datblygu strategaeth gynaliadwy:

- Ystyried pwysigrwydd cydbwyso anghenion byr dymor gyda'r angen hefyd i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor;
- Gweithredu mewn modd integredig;
- Cydweithio ag eraill er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy;
- Cynnwys pobl yn y penderfyniadau fydd yn effeithio arnynt; a
- Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

## 5. Adolygu'r Strategaeth

Bob dwy flynedd bydd Cyngor Gwynedd yn paratoi adroddiad cynnydd interim yn nodi'r camau a gymerwyd yn unol â'i strategaeth gan ddechrau o ddyddiad y strategaeth olaf a gyhoeddwyd. Cyhoeddir adroddiad cynnydd interim cyn pen chwe mis o ddiwedd dyddiad y cyfnod o ddwy flynedd. Felly, yn dilyn cyhoeddiad ym Mai 2019, cynhelir adolygiad cyn diwedd Mai 2021 a'i gyhoeddi cyn diwedd Tachwedd 2021.

## 6. Darpariaeth Cyngor Gwynedd

Mae gan Wynedd gymysgedd o ran darpariaeth toiledau. Ar hyn o bryd, rydym yn darparu 63 o doiledau cyhoeddus traddodiadol a weithredir gan y Cyngor, yn ogystal â 35 o gyfleusterau toiledau cymunedol. Mae rhan fawr o'r ardal hefyd yn rhan o Barc Cenedlaethol Eryri sydd hefyd yn darparu cyfleusterau toiledau.

Yn Atodiad 1 ceir rhestr o'r ddarpariaeth bresennol yng Ngwynedd.

## 7. Beth mae Gwynedd yn ei wneud ar hyn o bryd?

### Cynllun Partneriaethu Cynghorau Cymuned a Thref

Yn dilyn Ymarfer Ymgysylltu Her Gwynedd yn 2016, adolygodd y Cabinet ei benderfyniad i gyflawni'r toriad o £244,000 yn y gwasanaeth drwy wireddu Cynllun Partneriaethu arfaethedig gyda Chynghorau Tref a Chymuned er mwyn cadw mwyafrif toiledau presennol y Sir yn agored i'r dyfodol.

Datblygwyd y cynllun fel trefniant amgen i'r penderfyniad a gymerwyd i gau hyd at 50 o doiledau fel rhan o'r gyfundrefn o doriadau. Ymgynghorwyd gyda'r holl Gynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd i ganfod os oedd digon o ddiddordeb mewn gweithio mewn partneriaeth gyda ni i gadw'r toiledau yn agored. Mae'r Cynllun Partneriaeth yn gweithio drwy i'r Cynghorau Cymuned a Thref gyfrannu yn flynyddol neu'n dymhorol tuag at gostau rhedeg y toiledau.

Mae hyd at 63 o doiledau bellach wedi cael eu cadw yn agored gyda chymorth Cynghorau Tref a Chymuned ac eraill.

### Gweithio gydag eraill

Lle nad oedd hi'n bosib i'r Cynghorau Cymuned a Thref gyfrannu yn ariannol at gadw'r cyfleusterau yn agored yn eu hardaloedd, mae'r Cyngor wedi ceisio gweithio gydag eraill, h.y. partneriaid trydydd sector, busnesau preifat a grwpiau cymuned lleol i gadw'r ddarpariaeth yn agored yn eu hardaloedd lleol.

Er enghraifft yn Y Friog sefydlwyd grŵp cymunedol lleol ac mae gwaith yn mynd rhagddo, ac mae cymunedau eraill hefyd wedi datgan fod ganddynt ddiddordeb i ddatblygu'r ffordd yma o weithio ymhellach.

Astudiaeth Achos Y Friog

Roedd pentref arfordirol Y Friog yn wynebu colli eu darpariaeth toiled. Fe wnaeth y Cyngor gymryd pob cyfle posib i siarad gyda thrigolion a'r cyngor cymuned am yr her ariannol oedd yn eu hwynebu i gadw'r ddarpariaeth yn agored. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus i wrando ar bryderon y gymuned ac i gael eu barn.

O ganlyniad, daeth grŵp o drigolion at ei gilydd a ffurfio Ymddiriedolaeth Mwynderau Y Friog. Trwy weithio gyda'r Ymddiriedolaeth cawsom gyfle i ddod o hyd i ateb hirdymor i sicrhau dyfodol y ddarpariaeth o doiled yn y pentref. Datblygwyd cynllun peilot a olygai fod yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd cyfrifoldeb am y toiledau. I sicrhau ein bod yn gallu cefnogi'r grŵp i lwyddo gyda'r fenter penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn dal i fod yn gyfrifol am yr adeilad yn y tymor byr. Roedd hyn i sicrhau y gallem gefnogi'r grŵp fel eu bod yn ddigon cydnerth i ddarparu'r gwasanaeth.

Mae wedi bod yn brofiad cadarnhaol i'r Cyngor o ran gweithio gydag eraill i gael canlyniad cynaliadwy. O ran cynllunio ar gyfer yr hirdymor, mae'r Cyngor wedi cytuno i drosglwyddo'r asedau ar brydles i'r Ymddiriedolaeth o Chwefror 2019, gyda system barhaus yn ei lle i adolygu.

## Cynllun Grantiau Toiledau Cymunedol

Caiff y Cynllun Grantiau Toiledau Cymunedol ei ariannu a'i reoli gan Gyngor Gwynedd. Mae'r Cynllun yma yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio cyfleusterau toiled mewn ystod o sefydliadau lleol cymeradwy yn ystod eu horiau agor. Darperir y cyfleusterau yn rhad ac am ddim a heb unrhyw ddisgwyliad y bydd defnyddwyr yn prynu nwyddau neu wasanaethau pan fyddant yn yr eiddo. Bydd angen i bob eiddo sy'n cymryd rhan i gadw eu toiledau yn ddiogel, glân, hygyrch a gyda digon o nwyddau. Yr uchafswm grant yw £500 y flwyddyn i bob lleoliad. Ar hyn o bryd mae gennym 35 eiddo ar draws Gwynedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun ynghyd â rhestr aros.

Rhaid i'r darparwr gwasanaeth arddangos o leiaf un arwydd a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar ei ffenestr(i) neu ddrws (drysau) i ddangos ei fod yn aelod o'r cynllun fel bod y cyhoedd yn gwybod bod ganddynt hawl i ddefnyddio'r toiledau. Rydym wedi cael peth adborth yn dweud nad yw'r cyhoedd yn gyffredinol yn ymwybodol o'r cynllun.

## Gwella Cyfleusterau drwy Arian Grant

Hyd yma rydym wedi llwyddo i ddenu hyd at £300,000 mewn arian grant i ymgymryd â gwaith gwella ar rai cyfleusterau cyhoeddus. Bydd arian o'r Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth yn talu am waith gwella mewn tri thoiled cyhoeddus ym Methesda, Y Bala a Beddgelert.

Ymhellach, mae arian hefyd wedi ei sicrhau o'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig i uwchraddio'r cyfleusterau ac i wella effeithlonrwydd ynni yn y toiledau ym Mhenllyn, Caernarfon; Marian y De, Pwllheli; Queen's, Harlech; y Cei, Abermaw a'r Ganllwyd. Bwriedir ymgymryd â'r gwaith yma yn ystod 2019/20.

Byddwn yn anelu i edrych am ffyrdd o ddenu rhagor o grantiau gan weithio gydag eraill i ddenu arian grant i wella safon a chynaliadwyedd y cyfleusterau.

## "Changing Places"

Nid yw toiledau safonol hygyrch yn cyfarch anghenion pobl anabl i gyd. Mae pobl gydag anableddau dysgu lluosog ynghyd a phobl gydag anableddau corfforol eraill fel anaf i'r asgwrn cefn, dystroffi cyhyrau a sglerosis gwasgaredig yn aml angen cyfarpar ychwanegol a gofod er mwyn iddynt allu defnyddio'r toiledau yn gyffyrddus ac yn ddiogel. Mae'r anghenion yma yn cael ei gyfarch gan doiledau 'Changing Places'. Yma yng Ngwynedd mae'r ddarpariaeth gyntaf o 'changing place' newydd ei agor yn y Stesion Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri yng Nghaernarfon.

## Mapio Lleoliadau

Mae hwn yn rhan bwysig o'n strategaeth fel bod pobl sydd angen mynd i doiled yn gallu cael gwybodaeth yn hawdd am y lleoliad, amseroedd agor, hygyrchedd a'r math o gyfleusterau sydd ar gael.

Toiled
Toilet

Datblygodd Llywodraeth Cymru'r logo yma fel bo trigolion ac ymwelwyr yn gallu ei adnabod yn hawdd ble bynnag y byddant yng Nghymru ac fe argymhellwyd fod awdurdodau lleol yn ymgorffori'r logo fel rhan o'u hymgyrch i godi ymwybyddiaeth am y toiledau gall y cyhoedd eu defnyddio.

Un o ofynion eraill y strategaeth hon yw paratoi set ddata yn ôl manyleb benodol a'i bod ar gael fel data agored ar ein gwefan. Unwaith y byddwn wedi adnabod y toiledau gaiff eu hysbysebu fel rhai sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd yn gyffredinol, bydd y set ddata yn cael ei defnyddio gan system Llywodraeth Cymru a'i huno gyda setiau data awdurdodau lleol eraill i lunio set ddata toiledau cenedlaethol ar gyfer map Lle. Mae Lle yn borth-daear sy'n hyb ar gyfer data a gwybodaeth am amrywiaeth eang o bynciau, ond yn bennaf ynglŷn â'r amgylchedd. Bydd Lle yn cynhyrchu mapiau Cymru gyfan ar y setiau data a ddarparwyd a gellid eu ffurfweddu i ganolbwyntio ar un ai'r darlun cenedlaethol neu ar ardaloedd mwy lleol. Bydd y data ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac fel gwasanaeth data agored sy'n hygyrch i bawb. Dyma'r ddolen i borth Lle:

http://lle.gov.wales/home

Bydd y Cyngor yn adolygu ac yn diweddaru data Lle Llywodraeth Cymru yn flynyddol i ganiatáu mynediad i'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion ac ymwelwyr.

## 8. Beth wnaethom ni ei ddysgu o gynnal yr Asesiad o Angen?

Cynhaliodd Cyngor Gwynedd ei asesiad o angen er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosib yn medru ymgysylltu â'r broses. Cyflawnwyd hyn drwy gydlynu gwybodaeth feintiol sydd yn bodoli'n barod ac fe ymgynghorwyd â chymaint o sefydliadau a budd-ddeiliaid y gwyddys y byddai a buddiant yn narpariaeth toiledau ag oedd yn bosib.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnal asesiad o angen drwy:

- Holiadur Toiledau Cyhoeddus:
- Ymgynghoriad "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?"
- Grwpiau Nodweddion Cydraddoldeb
- Adborth Cynghorau Cymunedau a Thref
- Proffil Gwynedd
- Asesiad Cydraddoldeb

## Proffil Gwynedd

## Anghenion Poblogaeth

Yn ôl amcangyfrifon Poblogaeth ONS mae poblogaeth Gwynedd yn 123,742. Mae 23,410 o'r boblogaeth o dan 18 oed a 27,971 yn 65 oed neu hŷn. Mae 61,335 o'r boblogaeth yn ddynion a 62,407 yn ferched.

Mae'r ONS hefyd yn darparu rhagolygon poblogaeth. Mae'r rhagolygon yma yn amcangyfrif cynnydd o tua 10,000 o bobl yng Ngwynedd dros yr 20 mlynedd nesa. Ond, nid ydym yn disgwyl i'r cynnydd yma fod yn gyson ar draws grwpiau oedran. Rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn y boblogaeth 0-15 oed o 5.6%, gostyngiad o 7.4% yn y boblogaeth 40-64 oed a chynnydd o 59.3% yn y boblogaeth 80 oed a hŷn. Mae hyn yn dangos cynnydd enfawr yn grwpiau mwyaf bregus cymdeithas - pobl ifanc a phobl hŷn.

## Anghenion Iechyd

Mae disgwyliad oes dyn yng Ngwynedd yn 78.8 oed, tra bod disgwyliad oes merched adeg yn 83.1 oed.

Yn ôl ffigyrau Daffodil Llywodraeth Cymru mae gan 17,171 o drigolion Gwynedd 18 oed a drosodd salwch hirdymor cyfyngedig. Mae gan dros 4,500 o drigolion Gwynedd 65 oed a drosodd problemau gyda'u pledren.

Yn ôl elusen crohn's & colitis uk mae gan o leiaf 300,000 o bobl yn y DU Clefyd Crohns neu Colitis Ulcerative, a adnabyddir fel 'Inflamatatory Bowel Disease' (IBD).

Yn ôl ymateb gan Crohn's & Colitis Uk i'r Bil Iechyd Cyhoeddus (Cymru), dywedodd 96% o'r sawl a ymatebodd i arolwg gan Crohn's & Colitis UK y dylai fod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i greu a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol. Dywedodd 40% eu bod yn cefnogi hynny oherwydd eu hangen am fynediad ar frys ac yn rheolaidd i doiledau.

## Holiadur Toiledau Cyhoeddus

Lansiwyd Holiadur Toiledau Cyhoeddus gan y Cyngor er mwyn canfod gwybodaeth a fydd yn eu helpu i adeiladu darlun o anghenion y gymuned, ac i helpu paratoi Strategaeth Toiledau Lleol.

Roedd cyfle i drigolion a sefydliadau gymryd rhan:

- Ar-lein drwy ymweld â gwefan www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori
- Holiadur papur a oedd ar gael drwy Siop Gwynedd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden y Cyngor
- Anfon llythyr neu e-bost gydag unrhyw adborth neu sylwadau.

Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i gymryd rhan yn yr arolwg gan gynnwys:


- cyhoeddi datganiad i'r wasg a ddefnyddiwyd fel sail i erthyglau yn y papurau newydd lleol a rhanbarthol (Daily Post, Herald, Bangor Mail, Cambrian News, Y Cyfnod, Chronicle, a nifer o Bapurau Bro'r sir);
- ymgyrch ragweithiol ar y cyfryngau cymdeithasol a oedd yn cynnwys cyfres gyson o negeseuon a hyrwyddwyd drwy gyfrifon Twitter, Facebook y Cyngor a drwy sawl partner;
- cyhoeddi erthygl yn newyddlen 'Rhaeadr' i aelodau etholedig Cyngor Gwynedd
- cylchredeg manylion yr ymgynghoriad i sawl corff, grŵp nodwedd a grŵp anodd eu cyrraedd, ei raeadru i'w haelodau gan gynnwys aelodau:

    - Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector yng Ngwynedd;
    - Cynghorau Cymuned a Thref
    - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn;
    - Ffermwyr Ifanc;
    - Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor;
    - Yr Urdd;
    - Age Cymru Gwynedd a Môn;
    - sefydliadau celfyddydol;
    - sefydliadau amgylcheddol
    - Grŵp Craidd Cydraddoldeb Gwynedd
    - Pobl ifanc gan gynnwys pobl ifanc LGBT+ (GISDA),
    - Pobl Anabl - Menter Fachwen
    - Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd
    - Cynrychiolwyr sector busnes Gwynedd. e.e. http://www.gwyneddbusnes.net/html/singleton/228/cy-GB

Gweler canlyniadau llawn yr holiadur yn **Atodiad 2**

## Pwy atebodd yr Holiadur Toiledau Cyhoeddus?

Cafwyd 1,202 o ymatebion. Roedd rhan fwyaf o'r atebwyr yn Breswylwyr Gwynedd (67.3%) ac ymwelwyr i Wynedd (19.5%).




Roedd rhan fwyaf o'r atebwyr (47.7%) yng ngrŵp oedran 45-64 oed. Cafwyd llai na 4% o atebion gan grŵp oedran o dan 25. Mae hynny yn isel o gymharu â 21.6% o'r boblogaeth yng Ngwynedd yn o dan 25 oed.

O'r unigolion wnaeth lenwi'r holiadur roedd:

| Rhyw | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dynes/Benyw | 755 | 62.8% |
| Dyn/Gwryw | 380 | 31.6% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 34 | 2.8% |
| Heb Ateb | 23 | 1.9% |
| Arall | 10 | 0.8% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl o dan Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dewisodd 100 o unigolion beidio ateb y cwestiwn neu ddewis yr opsiwn 'gwell gennyf beidio â dweud'. Er nad oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol, yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 9.7% o bobl Gwynedd wedi datgan fod ganddynt gyflwr sy'n "cyfyngu'n sylweddol ar eu gweithgareddau dydd i ddydd" sy'n cymharu gyda 9% o ymatebwyr yr holiadur a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl.

| A ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Nac ydw | 994 | 82.7% |
| Ydw | 108 | 9.0% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 82 | 6.8% |
| Heb Ateb | 18 | 1.5% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

## Prif Negeseuon

## Pa mor aml caiff toiledau cyhoeddus eu defnyddio?

Ar gyfer yr holiadur, mae 'toiledau cyhoeddus' yn golygu toiledau cyhoeddus a thoiledau sy'n rhan o gynllun grant toiledau cymunedol e.e. mewn caffis neu siopau. Mae'n amlwg o'r holiadur fod toiledau yn ddarpariaeth bwysig i'r atebwyr yn gyffredinol, gyda 54.4% yn dweud eu bod yn eu defnyddio'n ddyddiol neu'n wythnosol. Er hynny, nododd 8.9% o bobl o dan 25 oed nad ydynt 'Byth' yn defnyddio toiledau cyhoeddus o gymharu â 2.3% yn gyffredinol. Hefyd, nododd 13.3% o bobl o dan 25 oed eu bod yn defnyddio'r toiledau yn 'Ddyddiol' o gymharu â 17.3% yn gyffredinol.

## Ydi'r oriau agor yn addas?

Dywedodd 70.6% fod yr oriau agor y ddarpariaeth yn addas, ond roedd negeseuon clir o'r sylwadau fod darpariaeth dymhorol yn amhoblogaidd yn enwedig mewn lleoliadau gwledig. Roedd nifer o'r sylwadau yn cyfeirio at yr angen i ymestyn oriau agor, gan nodi fod nifer yn cau llawer rhy gynnar gyda'r nos neu heb agor ddigon cynnar yn y bore.

Roedd 38% o bobl sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd o dan adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nad yw oriau agor toiledau cyhoeddus yn addas iddynt, o gymharu â 26% yn gyffredinol.

## Ydi'r cyfleusterau yn addas ar gyfer newid plant?

Nododd 73.6% o ymatebwyr nad yw'r cyfleusterau yn addas ar gyfer newid plant. Nododd nifer o'r sylwadau nad oedd digon o unedau newid ar gael, a bod y rhai sydd yn bodoli eisoes angen eu moderneiddio.

## Ydi'r cyfleusterau yn hygyrch?

Roedd 16.7% o bobl sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd o dan adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nad yw'r cyfleusterau yn hygyrch iddynt, o gymharu â 6.7% yn gyffredinol.

## A oedd yna unrhyw nodwedd cydraddoldeb yn effeithio'n benodol ar ba mor addas yw'r toiledau?

Gweler o'r tabl isod mai'r 3 prif nodwedd cydraddoldeb sy'n effeithio ar ba mor addas yw'r toiledau yw  Anabledd, Oed, a Rhyw.


| | **Nifer o atebion** | **%** |
|---|---|---|
| Anabledd | 124 | 10.3% |
| Oed | 119 | 9.9% |
| Rhyw | 77 | 6.4% |
| Beichiogrwydd/Mamolaeth | 22 | 1.8% |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | 9 | 0.7% |
| Trawsrywiol | 8 | 0.7% |
| Crefydd | 7 | 0.6% |
| Hil | 3 | 0.2% |

*Roedd modd dewis mwy nag un ateb

Derbyniwyd sylwadau nad yw'r cyfleusterau yn addas i drigolion gydag anableddau, a chyflyrau meddygol penodol e.e. cyflwr bowel/pledren.

## Beth ydi safon y cyfleusterau sydd ar gael?

Yn gyffredinol, nododd 44.6% sgôr o 3 ar gyfer safon y cyfleusterau. Roedd 29.4% yn nodi sgôr o 4 neu 5, sef Gwael/Gwael iawn.




## Beth sy'n dda am y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus?

Roedd 26.5% o sylwadau yn nodi fod argaeledd y cyfleusterau yn dda, a 9.9% yn nodi eu bod mewn lleoliadau da. Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi fod y toiledau yn hanfodol i wahanol bobl:

- Trigolion Gwynedd (6.6%),
- Ymwelwyr (4.6%),
- Teuluoedd a phlant (3.0%)
- sydd â chyflwr iechyd penodol (2.1%)
- henoed (1.3%)

Gweler sylwadau llawn yn Atodiad 2

## Beth ellir ei wella o ran y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus?

Y prif sylw o ran beth ellir ei wella o ran y ddarpariaeth oedd hylendid y cyfleusterau. Roedd 24.1% o'r sylwadau yn nodi bod angen sicrhau cyflenwad o nwyddau ymolchi addas ac angen gwella neu foderneiddio cyfleusterau a'u goleuo'n well.

Roedd 16.1% o'r sylwadau yn nodi'r angen i gynyddu neu amddiffyn nifer y toiledau cyhoeddus sy'n agored. Roedd 12.5% o'r sylwadau yn nodi bod angen adolygu cyfnodau neu oriau agor a chau.

Gweler sylwadau llawn yn Atodiad 2

## Ydi pobl yn ymwybodol o unrhyw fusnesau lleol sydd yn rhan o'r cynllun grant toiledau cymunedol?

Yng Ngwynedd, mae 35 o fusnesau a sefydliadau lleol yn rhan o gynllun toiledau cymunedol. Golygai hyn y gallai unrhyw un o'r cyhoedd ddefnyddio'u cyfleusterau. Nododd 76.9% o atebwyr nad oeddynt yn ymwybodol o unrhyw fusnesau lleol sydd yn rhan o'r cynllun.

| | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Heb Ateb | 38 | 3.2% |
| Nac ydw | 925 | 77.9% |
| Ydw | 239 | 19<br>.9% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

## Pa mor hawdd ydi darganfod toiled cyhoeddus pan mae angen?

Nododd 36.5% fod hi'n 'Anodd' neu'n 'Anodd iawn' darganfod toiled cyhoeddus, a dim ond 19.7% a nododd ei bod yn 'Hawdd' neu'n 'Hawdd iawn'. Roedd gweddill yr atebion yn 'Ddim yn hawdd nac yn anodd' neu heb ateb y cwestiwn.

Nododd 78.5% o atebwyr hoffent ddarganfod ble mae'r toiledau cyhoeddus agosaf drwy ddefnydd o arwyddion.

## Ymgynghoriad "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?"

Cynhaliwyd ymgynghoriad "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?" gan Gyngor Gwynedd yn ystod Hydref 2018. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd egluro'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor i bobl a sefydliadau Gwynedd; Yn ogystal â chynnig cyfle i bobl a sefydliadau Gwynedd i ddweud eu dweud ar pa wasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu sydd fwyaf pwysig iddynt.

Ymgynghorwyd â dros 2,400, ac yn gyffredinol dros y sir, nid oedd toiledau cyhoeddus ddim yn flaenoriaeth uchel (safle 44 allan o 59). Er hynny, roedd toiledau cyhoeddus yn safle 11 (o 59) gyda phobl dros 65 oed, a safle 25 (o 59) gyda phobl gydag anableddau.

Roedd ardal Tywyn yn cynnwys 'Toiledau cyhoeddus' (safle 5), yn eu deng blaenoriaeth uchaf. Mae 'Toiledau Cyhoeddus' yn cael eu gosod yn uwch o lawer (20 safle neu fwy) na chanlyniadau Gwynedd yn ei gyfanrwydd.

O safbwynt y 10 gwasanaeth a osodwyd isaf o'r 59, gweler ambell i wahaniaeth ym mhob ardal lleol o gymharu â Gwynedd gyfan. Roedd ardal Bangor, Caernarfon a Dyffryn Nantlle yn gosod 'Toiledau cyhoeddus' yn ymysg y 10 isaf.

Roedd toiledau cyhoeddus yn safle 51 gan grŵp oedran o dan 25 o gymharu â'r ymatebion yn eu cyfanrwydd. I'r gwrthwyneb, roeddent yn safle 11 gan yr ymatebwyr dros 65 oed, sydd yn llawer iawn uwch (20 safle neu uwch) o ran pwysigrwydd na'r ymatebion yn eu cyfanrwydd.

## Grŵp Hunan Adfocatiaeth

Nododd y grŵp bod angen edrych ar eu hôl ac nid oeddent eisiau gorfod talu i'w defnyddio er yn gwybod y byddai'n helpu efo'r costau.

## Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd

Mae toiledau cyhoeddus yn un o'r gwasanaethau pwysicaf i'r grŵp yma. Nododd y grŵp fod angen digon o doiledau mewn mannau cyhoeddus er mwyn galluogi pobl hŷn i fynd allan a theithio â hyder.

## Grŵp Craidd Cydraddoldeb

Ymgynghorwyd â Grŵp Craidd Cydraddoldeb sy'n cynrychioli'r grwpiau canlynol:

- Grŵp Ffoaduriaid;
- Cytûn;
- Grŵp Mynediad Meirionnydd;
- Cyngor Pobl Hŷn;
- Men's Sheds Caernarfon;
- Hunaniaith;
- Bangor Indians and Friends Association;
- Unique Transgender Network;
- Council of Sign Sight Sound;
- Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Gogledd Cymru;
- Canolfan Cymorth Dioddefwyr;
- Canolfan Islamaidd Bangor

Roedd y Grŵp yn gweld toiledau cyhoeddus yn hynod bwysig i bobl hŷn, teuluoedd ifanc a phobl anabl. Roedd y grŵp yn ffafrio grant i fusnesau lleol ond bod angen hysbysebu mwy arnynt ac ehangu'r nifer a fyddai'n caniatáu gwell cyfleusterau a lle newid mwy addas i bobl gydag anghenion ychwanegol. Roedd y Grŵp yn nodi ei fod yn iawn i bobl dalu am ddefnyddio'r cyfleusterau.

### Grŵp LGBT+ GISDA

Ymgynghorwyd â Grŵp LGBT+ GISDA. Nododd rhai bod angen i'r Cyngor ddarparu toiledau 'gender neutral' a bod y cyfleusterau ar hyn o bryd yn anaddas, yn fudr ac yn cau yn rhy gynnar.

### Cynghorau Tref a Chymuned

Drwy weithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned, mae'r Cyngor yn derbyn gwybodaeth am anghenion eu cymunedau. Mae'r Cyngor wedi derbyn sylwadau fod cyfleusterau mewn rhai o'r cymunedau mewn cyflwr gwael, a bod angen eu huwchraddio. Mae'r sylwadau eraill yn nodi fod angen ymestyn oriau agor, a bod y ddarpariaeth ar gael drwy'r flwyddyn.

### Twristiaeth

Yn yr Holiadur Toiledau Cyhoeddus, nododd sefydliadau twristiaeth fod toiledau'n hanfodol ar gyfer ymwelwyr, a bod angen iddynt fod ar agor drwy'r flwyddyn. Mae'r sector twristiaeth yn un bwysig iawn i Wynedd. Dangosodd yr adroddiad STEAM bod dros 7.25 miliwn o dwristiaid wedi ymweld â Gwynedd yn 2017, nifer sydd wedi cynyddu yn flynyddol ers 2012.

## 9. Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Rhaid i ni gydnabod nad oes unrhyw atebion sydyn a bod mesurau cyni yn golygu bydd y Cyngor yn parhau i wynebu pwysau ariannol ond mae'r Cyngor yn ymrwymo i'r isod i liniaru'r bylchau rhwng y ddarpariaeth toiledau sydd ar gael a'r angen a nodwyd:

### Darpariaeth o gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn briodol

Bydd y Cyngor yn adolygu ei waith glanhau a safonau yn gyfnodol i sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithlon ac effeithiol o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd gan hefyd adolygu oriau agor cyfleusterau mewn lleoliadau allweddol. Yn ogystal, bydd yn cynnal archwiliad o'r cyfleusterau newid i fabanod sydd ar gael ac yn ymdrechu i gynyddu argaeledd ble fo hynny'n

bosib ac yn ymarferol.  Fe fydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Heddlu, Diogelwch Cymunedol a thrigolion, grwpiau cymunedol ac eraill i sicrhau bod y cyfleusterau mor ddiogel â phosib.

## Uchafu argaeledd toiledau drwy bartneriaeth a darpariaeth arall

Parhau i weithio gyda chymunedau i gynnal y cynllun partneriaeth cyfredol a pharhau i weithio gyda busnesau lleol i hyrwyddo defnyddio eu cyfleusterau toiled yn well dan y Cynllun Grant Cymunedol yn enwedig mewn ardaloedd ble y gall fod bwlch mewn darpariaeth. Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Gwefan a chyfryngau cymdeithasol
- Gwell arwyddion i'r busnesau fydd yn cynnwys y logo a bennwyd gan Lywodraeth Cymru
- Rhestr o'r eiddo ar safleoedd twristiaeth.

## Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill

Mae mapio lleoliadau yn rhan bwysig o'n Strategaeth. Rydym eisiau i'r bobl hynny sydd am ymweld â'r toiled i fedru cael mynediad hawdd i wybodaeth am y lleoliad, amseroedd agor, hygyrchedd a'r math o gyfleusterau sydd ar gael.  Croesawn yn gynnes benderfyniad Llywodraeth Cymru i greu, gyda chefnogaeth awdurdodau lleol, map ar-lein o'r holl gyfleusterau toiled presennol sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio yng Nghymru.  Bydd y map yma nid yn unig yn helpu pobl i ddod o hyd i doiledau lleol ond hefyd yn ei gwneud hi'n haws i gynllunio ar gyfer teithiau pellach.  Bydd y Cyngor yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i sicrhau fod yr holl doiledau yng Ngwynedd wedi eu cynnwys yn y map cenedlaethol hwn.

Byddwn hefyd yn darparu dolen uniongyrchol i'r map cenedlaethol ar ein gwefan, pan fydd ar gael. Y ddolen i borth Lle, ble gellir gweld y map yw: http://lle.gov.wales/home?lang=cy

Byddwn yn adolygu'r cyfleusterau sydd wedi eu cynnwys yn rheolaidd o leiaf bob dwy flynedd, yn unol â'n hadroddiadau cynnydd a'r cyfnodau adolygu Strategaeth, fel y manylir isod.  Os ydym yn clywed am newidiadau i argaeledd cyfleusterau, fel rhai'n cau neu newid amser agor, neu yn wir fusnesau newydd ble caniateir defnyddio'r cyfleusterau, byddwn yn diweddaru'r wybodaeth yn amserol yn hytrach nag aros tan y dyddiad adolygu.

## Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeiro da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol

Bydd sticer y logo toiled yn cael ei arddangos ar y busnesau hynny sydd ar hyn o bryd yn gweithredu dan y cynllun grant cymunedol ac ar adeiladau Cyngor perthnasol sydd wedi eu mapio. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth i wella'r pyst arwyddion i gyfeirio'r cyhoedd i'r toiledau sydd ar gael mewn lleoliadau allweddol fel hybiau trafnidiaeth yn y Sir.

## Asesu argaeledd a dosbarthiad cyfleusterau yn seiliedig ar alw

Yn ddelfrydol, dylid trefnu dosbarthiad adnoddau a chyfleusterau yng Ngwynedd i ymdrin yn effeithiol â phroffil y galw. Gall adolygiad cyfnodol o'r Strategaeth ganolbwyntio ar broffil y galw i nodi newidiadau a allai uchafu effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir.

## Darpariaeth gynaliadwy o fewn y gyllideb sydd ar gael

Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i gynaliadwyedd drwy ei gynllun rheoli carbon ac o fewn ei weithrediadau sy'n cynnwys darpariaeth cyfleusterau toiledau. Trwy'r arian grant y derbyniwyd hyd yma rydym wedi sicrhau a byddwn yn parhau i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i faterion amgylcheddol wrth wella neu ailwampio cyfleusterau, er enghraifft y cyfleusterau diweddar a ailwampiwyd oedd pan gafodd y goleuadau eu gwella yn y cyfleusterau hyn drwy osod goleuadau LED.

## 10. Adolygu, Adrodd a Diwygio

Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal adolygiadau rheolaidd o'r Strategaeth leol a darparu adroddiadau cynnydd. Dylid gwneud y rhain bob dwy flynedd, ac eithrio pan fo etholiadau awdurdodau lleol ac ar yr adegau hynny dylid cynnal adolygiad cyn pen blwyddyn o'r etholiad gan un ai ail-ddrafftio'r Strategaeth neu ddarparu adroddiad cynnydd interim.

Yn y tabl isod, nodir yr amserlen ar gyfer y gwaith adolygu a fwriedir a'r cylch adrodd:

| | |
|---|---|
| Adolygiad statudol ac adroddiad cynnydd interim am y cyfnod 30ain Mai 2019 i'r 30ain Mai 2021. | Mehefin i Awst 2021 |
| Sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet | Hydref a Thachwedd 2021 |
| Cyhoeddi'r adroddiad cynnydd interim ar ein gwefan | 30ain Tachwedd 2021 |
| Adolygu cyn pen blwyddyn o etholiadau llywodraeth leol (5ed Mai 2022). | Erbyn 4ydd Mai 2023 |
| Os oes newidiadau i'r Strategaeth, ail-gyhoeddi'r ddogfen lawn a gymeradwywyd. | Erbyn 3ydd Tachwedd 2023 |
| Os nad oes newidiadau i'r Strategaeth, paratoi adroddiad cynnydd interim am 22ain Tachwedd 2022 i'r 22ain Tachwedd 2024. | Rhagfyr 2024 i Ebrill 2025 |
| Sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet | Ebrill / Mai 2025 |
| Cyhoeddi'r adroddiad cynnydd interim ar ein gwefan | Erbyn 22ain Mai 2025 |
| Ailadrodd y broses o adolygu a llunio datganiadau cynnydd interim bob dwy flynedd neu cyn pen blwyddyn i etholiadau awdurdodau lleol | |


## 11. Camau Nesaf

Ydym wedi ymgynghori ar y strategaeth ac wedi diweddaru'r cynnwys o ran y cynnydd a wnaed gyda mapio cenedlaethol ar gyfleusterau toiledau lleol. Ydym hefyd wedi ymgorffori'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus i gyfarwyddo'r cynnwys terfynol.

**Awduron:** Amanda Murray **–** Rheolwr Prosiect, Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Bethan Roberts - Cydlynydd Cynghorau Cymuned a Grwpiau Cymunedol

| Toiled Cyhoeddus | Lleoliad | Agored | Darpariaeth ar gyfer yr anabl | Ffi mynediad 20c | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal ARFON** | | | | | |
| Bangor | Glanrafon | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 1 |
| Bangor | Tanyfynwent | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 2 |
| Bangor | Y Pier | Agor trwy'r flwyddyn | | | 3 |
| Bethesda | Stryd Fawr | Agor trwy'r flwyddyn | | | 4 |
| Caernarfon | Allt y Castell | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 5 |
| Caernarfon | Empire | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | ✓ | 6 |
| Caernarfon | Penllyn | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | ✓ | 7 |
| Dinas Dinlle | Marine | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 8 |
| Felinheli | Ffordd y Traeth | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 9 |
| Llanberis | Ger y Llyn | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 10 |
| Llanberis | Maes Padarn | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 11 |
| Llanberis | Y Glyn | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 12 |
| | | | | | |
| **Ardal DWYFOR** | | | | | |
| Aberdaron | Traeth | Tymhorol | ✓ | | 1 |
| Abersoch | Ger y bont | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 2 |
| Abersoch | Golff | Tymhorol | ✓ | | 3 |
| Abersoch | Machroes | Tymhorol | ✓ | | 4 |
| Beddgelert | | Agor trwy'r flwyddyn | | | 5 |
| Borth y Gest | Maes Parcio | Agor trwy'r flwyddyn | | | 6 |
| Criccieth | Esplanade | Tymhorol | ✓ | | 7 |
| Criccieth | Maes Parcio | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 8 |
| Llanbedrog | Traeth | Tymhorol | | | 9 |
| Llanystumdwy | | Tymhorol | | | 10 |
| Morfa Bychan | Traeth | Tymhorol | ✓ | | 11 |
| Morfa Bychan | Gwydryn | Tymhorol | | | 12 |
| Morfa Nefyn | Cae Coch | Agor trwy'r flwyddyn | | | 13 |
| Morfa Nefyn | Traeth | Tymhorol | | | 14 |
| Mynytho | | Tymhorol | ✓ | | 15 |
| Nefyn | Cefn Twr | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 16 |
| Nefyn | Lon Gam | Tymhorol | | | 17 |
| Porthmadog | Y Parc | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | ✓ | 18 |
| Pwllheli | South Beach | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 19 |
| Pwllheli | Stryd Penlan | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 20 |
| Pwllheli | Y Maes | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | ✓ | 21 |
| Trefor | Traeth | Agor trwy'r flwyddyn | | | 22 |
| | | | | | |
| **Ardal MEIRIONNYDD** | | | | | |
| Aberdyfi | Neuadd Dyfi | Agor trwy'r flwyddyn | | | 1 |
| Aberdyfi | Y Cei | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 2 |
| Abergynolwyn | | Tymhorol | | | 3 |
| Abermaw | Llys Cambrian | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 4 |
| Abermaw | Promenad y Gogledd | Tymhorol | ✓ | | 5 |
| Abermaw | Y Cei | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 6 |
| Bala | Plase | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 7 |
| Bala | Y Grin | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 8 |
| Blaenau Ffestiniog | Diffwys | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 9 |
| Bryncrug | | Tymhorol | | | 10 |
| Corris Isaf | | Agor trwy'r flwyddyn | | | 11 |
| Dinas Mawddwy | | Agor trwy'r flwyddyn | | | 12 |
| Dolgellau | Maes Parcio'r Marian | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | ✓ | 13 |
| Ganllwyd | | Agor trwy'r flwyddyn | | | 14 |
| Harlech | Bron y Graig | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 15 |
| Harlech | Min y Don | Tymhorol | | | 16 |
| Harlech | Queen's | Agor trwy'r flwyddyn | | | 17 |
| Llanbedr | | Agor trwy'r flwyddyn | | | 18 |
| Llandanwg | | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 19 |
| Llwyngwril | | Tymhorol | | | 20 |
| Maentwrog | | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 21 |
| Pennal | | Agor trwy'r flwyddyn | | | 22 |
| Penrhyndeudraeth | Maes Parcio | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 23 |
| Talybont | Pentre | Agor trwy'r flwyddyn | | | 24 |
| Trawsfynydd | | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 25 |
| Tywyn | Maes Adloniant | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 26 |
| Tywyn | Sinema | Agor trwy'r flwyddyn | ✓ | | 27 |

Atodiad 3




| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Rhedeg Drysau Talu | 25,187.14 | 18,936.92 | 3,364.44 | 5,391.82 | 99.03 |
| Incwm o'r Drysau Talu | 31,577.91 | 30,081.68 | 1,348.64 | 0.00 | 4,575.99 |
| Targed Incwm | 52,710.00 | 54,150.00 | 55,290.00 | 56,010.00 | 57,960.00 |
| Gwir Incwm (NET) | 6,390.77 | 11,144.76 | -2,015.80 | -5,391.82 | 4,476.96 |

***Fe welwch o ffigyrau 2020 ymlaen bod costau rhedeg y drysau wedi lleihau yn sylweddol.***
***Y rheswm dros hyn yw oherwydd ein bod wedi lleihau amlder casglu'r drysau.***
***Roedd ffigwr rhedeg y drysau talu yn 2022/23 yn isel iawn (£99.03) gan fod y drysau wedi torri.***
***Roedd incwm ar gyfer y flwyddyn yma o £4,676 yn arian parod oedd wedi casglu dros amser yn y drysau diffygiol.***

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 5 Hydref 2023 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau 2023/24 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Gorffennaf 2023.

2. Roedd yr eitem ‘Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn’ wedi ei raglennu i’w drafod yn y cyfarfod yma. Yn anffodus, nid oedd yn bosib i’r Pwyllgor ei ystyried yn y cyfarfod yma oherwydd ei fod yn gynamserol. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y broses o baratoi Cynllun Cyflawni tymor byr, tymor canolig a thymor hir i'r Cynllun Llesiant newydd.

3. Derbyniwyd cadarnhad gan Reolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn y byddai’n amserol i gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 30 Tachwedd 2023. Bydd y cynllun cyflawni yn ei le a byddai’n gyfle i aelodau’r Pwyllgor fwydo i mewn i’r broses o adolygu’r trefniadau llywodraethu.

4. Yn ogystal, mae’r Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd) wedi nodi mai un adroddiad fydd yn cael ei gyflwyno ganddynt i gyfarfod mis Tachwedd, sef ‘Strategaeth Llifogydd Lleol’. Gofynnir i’r Adran sicrhau bod yr adroddiad yn cyfarch y materion oedd dan sylw pan flaenoriaethwyd yr eitem ‘Rheolaeth yr Arfordir’ yn y gweithdy blynyddol.

5. Gweler ynghlwm fel atodiad i’r adroddiad, rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2023/24.

6. **Gofynnir i’r Pwyllgor Craffu Cymunedau fabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2023/24.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2023/24

| **13/07/2023** |
|---|
| • Adroddiad Blynyddol 2022/23 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus |
| **05/10/2023** |
| • Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Y Cytundeb Cyflawni<br>• Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan<br>• Toiledau Cyhoeddus |
| **30/11/2023** |
| • Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur<br>• Strategaeth Llifogydd Lleol<br>• Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| **22/02/2024** |
| • Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn<br>• Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Ymgynghoriad Cyhoeddus<br>• Llawlyfr Cynnal Priffyrdd<br>• Torri Gwair a Chynnal Tiroedd |
| **18/04/2024** |
| • Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu<br>• Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd<br>• Gwasanaeth Edrychiad Stryd |